

Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn

Dadansoddiad o'r ymgynghoriad

Ionawr 2020

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: info@wavehill.com
Gwefan: www.wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey
Tony Jones
Sarah Usher
Eddie Knight
Cherry Davidson
Andy Parkinson
Endaf Griffiths

Wedi'i gyfieithu gan Mabis

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com) yn y lle cyntaf.

Dyddiad y ddogfen: Ionawr 2020

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
1 Cyflwyniad.....	4
1.1 Cefndir	4
1.2 Ymatebion	5
1.3 Dull Dadansoddi	6
2 Persbectifau Plant a Phobl Ifanc	8
2.1 Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb	8
2.2 Addysg Grefyddol	9
2.3 Ni ddylai rhieni plant sydd ym mlwyddyn 8 a throsodd fod yn gallu atal eu plentyn rhag cael gwersi AG neu ACRh o fis Medi 2022	10
2.4 Effaith ar yr iaith Gymraeg.....	10
3 Effaith y Cynigion.....	11
3.1 Hysbysu Plant a Phobl Ifanc	11
3.2 Priodoldeb y Ddarpariaeth.....	12
3.3 Hyrwyddo Goddefgarwch	14
3.4 Gwella Lles	15
3.5 Sicrhau Hawliau Rhieni a Gofalwyr	16
3.6 Sicrhau Hawliau'r Plentyn	18
3.7 Addysgu a Dysgu	18
4 Gwybodaeth, Arweiniad a Chymorth.....	20
4.1 Egluro Cynnwys yr Addysgu	20
4.2 Cyfleoedd i gael Deialog	21
4.3 Cymorth Bugeiliol Ychwanegol	23
4.4 Cynorthwyo Athrawon	23
4.5 Gwrthwynebiad i'r Cynigion.....	25
5 Amseriad y Diwygiadau	28
5.1 Cyflwyno'n Raddol.....	28
5.2 Cyflwyno yn 2022	29

6	Ailenwi Addysg Grefyddol.....	31
6.1	Pwysigrwydd Dilyniant.....	31
6.2	Ailenwi AG.....	31
7	Goblygiadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg.....	33
7.1	Effaith ar y Defnydd o'r Iaith Gymraeg.....	33
7.2	Yr Iaith Gymraeg ac Addysg.....	34
8	Casgliadau.....	36
8.1	Meysydd lle y gwelir Consensws.....	36
8.2	Sensitifrwydd a Phriodoldeb y Ddarpariaeth.....	36
8.3	Addysg Eang a Chytbwys.....	37
8.4	Sicrhau cydbwysedd rhwng Hawliau'r Plentyn a'r Rhiant.....	37
8.5	Ymatebion Sensitif.....	37
8.6	Dehongliadau Lluosog o'r Cynigion.....	37
8.7	Pwysigrwydd Gwybodaeth a Chyfathrebu.....	38
	Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	39

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o ymatebion sy'n rhoi adborth am y cynigion ynghylch Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ymgynghoriad 'Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn'. Diben y dadansoddiad yw cyfrannu at ddatblygiad parhaus y cynigion.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cynigiwyd amrediad o gyfleoedd i ymatebwyr gyfleu eu safbwyntiau a'u persbectifau am y cynigion. Cafodd Llywodraeth Cymru 1,660 o ymatebion ar-lein, mewn negeseuon e-bost a thrwy'r post. Yn ogystal, estynnwyd gwahoddiad i rieni a gofalwyr fynychu grwpiau ffocws, lle'r oedd 65 o rieni wedi cyfrannu eu hystyriaethau a'u persbectifau.

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Hydref 2019, comisiynwyd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Roedd y dadansoddiad yn ceisio deall a mapio amrediad y safbwyntiau a'r persbectifau sydd gan ymatebwyr ynghylch y cynigion sy'n ymwneud ag AG ac ACRh.

Effaith y Cynigion

Roedd ymatebwyr wedi cynnig ystod amrywiol o effeithiau posibl y gallai'r cynigion eu cael. I'r rhai yr oeddent yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan, roedd ymatebwyr wedi cyfeirio at nifer o fanteision posibl cyflwyno AG ac ACRh, gan gynnwys:

- Hysbysu plant a phobl ifanc, gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt allu deall a chysylltu gyda gwahanol bobl, cymunedau, traddodiadau, credoau a byd-olygon.
- Hyrwyddo goddefgarwch, y byddai addysg niwtral a phlwraliaethol yn hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol gyda a dealltwriaeth o wahaniaeth.
- Gwella lles dysgwyr, gan gynnwys eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol.

I'r ymatebwyr hynny sy'n gwrthwynebu'r cynigion ar y cyfan, roeddent yn tueddu i ganolbwyntio ar y briodoldeb y ddarpariaeth. O'r persbectifau hyn, roedd ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at y diffyg cysylltiad tybiedig rhwng gwerthoedd rhieni a gofalwyr a'r cynnwys a'r ddarpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â rhyw a perthnasoedd.

At hynny, maes a oedd yn peri pryder sylweddol oedd y dybiaeth bod y cynigion yn erydu hawliau rhieni a gofalwyr. O'r persbectifau hyn, roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo fel pe bai ganddynt rôl sylfaenol i'w gyflawni yn natblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol eu plant. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion, a'r cyfle i optio allan o ddarpariaeth benodol, danseilio neu wanhau'r rôl hwn o bosibl.

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr yn cyfeirio hefyd at y ffaith bod hawliau'r plentyn i gael addysg gytbwys ac eang yn bwysig yn y ddadl ynghylch mynediad i'r cwricwlwm. O'r persbectifau hyn, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau rhieni a gofalwyr i bennu a siapiao addysg eu plant, a hawliau'r plentyn i gael addysg.

Gwybodaeth, Arweiniad a Chymorth

Thema allweddol a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd pwysigrwydd egluro a chyfleu'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu o fewn AG, ac yn arbennig, o fewn ACRh. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai yr oeddent yn gefnogol o'r cynigion ar y cyfan a'r rhai yr oeddent yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan, o'r farn y byddai hi'n bwysig sicrhau, pe byddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno, bod rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn o gynnwys yr addysg a phryd y byddai'r gwersi hyn yn digwydd.

Awgrymwyd mewn ymatebion y gallai hysbysu rhieni yn llawn o gynnwys gwersi roi sylw i bryderon y gallai fod gan rieni ynghylch priodoldeb yr hyn sy'n cael ei addysgu. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn ystod sgysiau gyda rhieni a gofalwyr mewn grwpiau ffocws. Pan oedd rhieni wedi mynegi pryderon, wrth iddynt gael eglurhad, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a allai gael ei addysgu, roedd eu gwrthwynebiad i'r cynigion yn tueddu i wanhau.

Amseriad y Diwygiadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn teimlo y dylid cyflwyno'r cynigion ar draws pob grŵp oedran o fis Medi 2022, neu a ddylid eu cyflwyno'n raddol wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Roedd y rhai a oedd yn mynegi'r farn y dylid eu cyflwyno'n raddol wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn tueddu i wneud hynny oherwydd nad oeddent yn dymuno gweld y cynigion yn cael eu cyflwyno o gwbl.

Roedd y rhai a ymatebodd trwy nodi y dylai'r cwricwlwm gael ei gyflwyno o fis Medi 2022, yn amlygu'r manteision i ysgolion, dysgwyr a chymdeithas, gan gynnwys cysondeb i ysgolion a llai o amharu a dryswch a welir mewn sefyllfa lle y mae rhai disgyblion yn dilyn y cwricwlwm ac eraill heb fod yn ei ddilyn.

Ailenwi Addysg Grefyddol

Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr am eu safbwyntiau am yr enw priodol ar gyfer AG, er mwyn adlewyrchu'n fanwl y cwmpas ehangach a gynigir yn y cwricwlwm newydd. Gwelwyd teimlad eang ymhlith ymatebwyr y dylid ailenwi AG yn Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y syniad bod addysgu am foesau a moeseg yn bwysig, ac y dylai teitl y pwnc adlewyrchu'r ffocws mwy eang. Yn ogystal, nododd nifer y byddai byd-olygon yn annog ymgysylltu gydag ystod ehangach o safbwyntiau a chredoau.

Goblygiadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Ni fynegwyd unrhyw faterion arwyddocaol mewn perthynas â'r cynigion a'u heffaith ar yr iaith Gymraeg.

Casgliadau

Yr hyn sy'n cysylltu mwyafrif yr ymatebwyr yw'r gred ynghylch pwysigrwydd hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a moesol plant, yn ogystal â chynorthwyo eu lles ehangach. Roedd y rhai a oedd yn gefnogol o'r cynigion ar y cyfan a'r rhai a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan yn unedig o ran eu dymuniad i sicrhau na fydd plant a phobl ifanc yn agored i werthoedd, credoau neu syniadau y maent yn teimlo eu bod yn tansilio neu'n mynd yn groes i'w datblygiad a'u lles.

Lle y gwelir gwahaniaeth barn, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio naill ai ar:

- Bryderon ynghylch **priodoldeb a sensitifrwydd y ddarpariaeth**; neu
- Bwysigrwydd cael addysg **eang, cytbwys a gwybodus**.

O fewn y ddau safbwynt gwahanol hwn, gwelwyd amrywiaeth sylweddol o ran y materion gwirioneddol a'r pwyslais o fewn ymatebion. Yn aml, roedd y safbwyntiau yn rhai cryf ac fe'u mynegwyd yn gryf, gan amlygu'r pwysigrwydd yr oedd nifer o ymatebwyr yn ei neilltuo i ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol neu foesol plant a phobl ifanc.

Teimlwyd ymhlith ymatebwyr yr oeddent o blaid y cynigion ar y cyfan a'r rhai yr oeddent yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan, bod gwybodaeth a chyfathrebu yn allweddol. Awgrymwyd mewn ymatebion y gallai hysbysu rhieni yn llawn o gynnwys gwersi roi sylw i bryderon sydd gan rieni efallai ynghylch priodoldeb yr hyn a addysgir. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn ystod sgysiau gyda rhieni a gofalwyr mewn grwpiau ffocws. Lle'r oedd rhieni wedi mynegi pryderon, pan roddir eglurhad iddynt, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu efallai, roedd eu gwrthwynebiad i'r cynigion yn tueddu i wanhau.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o ymatebion sy'n rhoi adborth am y diwygiadau arfaethedig i Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Gofynnwyd i blant a phobl ifanc, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid ehangach (gan gynnwys grwpiau ffydd) am eu safbwyntiau am y cynigion. Bwriedir i'r safbwyntiau a'r persbectifau gyfrannu at ddatblygiad parhaus y cynigion cyn cyflwyno *Cwricwlwm i Gymru 2022* newydd mewn ystafelloedd dosbarth ar draws Cymru.

1.1 Cefndir

Mewn partneriaeth ag athrawon, ymarferwyr ac ysgolion, bwriad Llywodraeth Cymru oedd adolygu'r cwricwlwm. Yn Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, yn ogystal â manteisio ar safbwyntiau a phersbectifau'r gymuned addysgol, gan gynnwys pobl ifanc a rhieni, roedd yr adolygiad yn ceisio cyfleu gweledigaeth am ddyfodol addysg o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Penllanw hyn i gyd fu datblygiad *Cwricwlwm i Gymru 2022*, sy'n ceisio trawsnewid addysgu a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth. Nod y cwricwlwm newydd yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc i fod:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Fel rhan o'r cynigion, byddai AG ac ACRh yn cyflawni rôl pwysig o fewn y cwricwlwm a arweinir gan ddiben, gan gynorthwyo'r holl ddysgwyr i symud tuag at y pedwar diben.

Yn y cwricwlwm newydd, er enghraifft, nod ACRh yw cynorthwyo pobl ifanc i sefydlu a chynnal perthnasoedd llawn parch a boddhaus trwy gydol eu bywydau. Gallai'r rhain gynnwys perthnasoedd teuluol, cyfeillgarwch, perthnasoedd proffesiynol, a pherthnasoedd rhywiol. Mae symud y tu hwnt i ffocws ar addysg rhyw yn unig o fewn y cwricwlwm presennol, tuag at archwiliad ehangach o berthnasoedd, yn adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol hefyd, gan gynnwys canllawiau rhyngwladol ynghylch addysg rhywioldeb a ddatblygwyd gyda Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO). Trwy gyfrwng ACRh, bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth gywir a niwtral, ac sy'n addas i'w hoedran, a fydd yn eu helpu i ymdopi'n llwyddiannus ac yn ddiogel yn y byd cymdeithasol y maent yn byw ynddo.

Mewn cynigion ar gyfer y cwricwlwm newydd, bydd AG yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bwriedir i'r ddarpariaeth adlewyrchu'r berthynas hanesyddol a chyfoes yng Nghymru gyda safbwyntiau athronyddol a chrefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. Y nod fyddai helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth a pharch o'r gwahanol ffurfiau o grefyddau a byd-olygon dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau. Caiff y fframwaith

AG ei hun ei ddatblygu gan grŵp o ymarferwyr ac athrawon AG, academyddion, a chynrychiolwyr o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG).

Wrth gynorthwyo'r holl blant a phobl ifanc i symud tuag at y pedwar diben, barnir bod sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu manteisio ar ddarpariaeth AG ac ACRh cytbwys a chyson yn allweddol. Ar y sail hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod achos cryf yma dros warantu mynediad i AG ac ACRh i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion.

Felly, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i beidio â chynnwys hawl i dynnu allan o AG ac ACRh yn y cwricwlwm newydd i Gymru, a bod y gwersi hyn yn rhai gorfodol i bob disgybl.

Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio safbwyntiau a phersbectifau pobl am y cynigion. Ym mis Hydref 2019, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, athrawon a'r gymuned ehangach er mwyn archwilio eu safbwyntiau.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ymatebwyr am oblygiadau ymarferol y cynnig yn benodol er mwyn sicrhau mynediad i'r cwricwlwm newydd.

1.2 Ymatebion

Cyflwynwyd y cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a gofynnwyd am safbwyntiau am y cynigion rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2019.

Cynigiwyd amrediad o gyfleoedd i ymatebwyr fynegi eu safbwyntiau a'u persbectifau am y cynigion, gan gynnwys ar-lein, mewn neges e-bost a thrwy'r post, ac yn bersonol. Cafodd Llywodraeth Cymru 1,660 o ymatebion ar-lein, trwy negeseuon e-bost a thrwy'r post. Roedd canran sylweddol o'r ymatebion hyn gan rieni, gofalwyr neu aelodau teuluol. Roedd grwpiau ffydd ar draws Cymru wedi cyfrannu eu safbwyntiau nhw hefyd, yn ogystal â sefydliadau o'r trydydd sector ac o'r sector cyhoeddus sydd â diddordeb mewn addysg ac mewn darpariaeth AG ac ACRh. At hynny, cafwyd ymatebion gan ymarferwyr, athrawon, arweinwyr uwch a llywodraethwyr.

Cafwyd nifer o gyflwyniadau tebyg, a oedd yn awgrymu bodolaeth ymgyrchoedd wedi'u cydlynu. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion lluosog yr oeddent yn union yr un fath neu ymatebion a oedd yn seiliedig ar brif ddadleuon tebyg, gyda mân newidiadau yn unig yn y testun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pum ymgyrch gwahanol a oedd yn cynnig persbectifau a safbwyntiau crefyddol am y cynigion; a
- Dyneiddwyr a oedd yn gofyn i ddyneiddiaeth gael rôl amlycach o fewn Addysg Grefyddol.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, i fynychu grwpiau ffocws hefyd. Roedd y rhain yn ceisio archwilio eu safbwyntiau yn fanylach. Trefnwyd a chynhaliwyd y grwpiau ffocws i blant a phobl ifanc gan Dynamix, sefydliad ymchwil

arbenigol sy'n manteisio ar ddulliau creadigol a chyfranogol er mwyn archwilio safbwyntiau pobl.

Trefnwyd a chynhaliwyd y grwpiau ffocws ar gyfer rhieni a gofalwyr gan staff Wavehill. Cynhaliwyd y rhain mewn ysgolion ar draws Cymru, gan gynnwys ysgolion y mae ganddynt gymeriad crefyddol a gyda rhieni plant a phobl ifanc o gefndiroedd penodol neu o ffydd penodol. Cynhaliwyd wyth grŵp at ei gilydd, lle y bu 65 o rieni a gofalwyr yn mynegi eu safbwyntiau a'u persbectifau. Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc mewn pedair ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, ac un lleoliad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn cynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ac un sy'n addysgu nifer o blant a phobl ifanc o gymuned y teithwyr.

Gofynnwyd y cwestiynau a ymddangosodd yn yr ymgynghoriad i aelodau'r grwpiau ffocws yn y lle cyntaf. Yna gofynnwyd cwestiynau a oedd yn ceisio archwilio a chadarnhau themâu a oedd yn codi, gan gynnwys o'r ymatebion ar lein. Mae'r themâu a'r persbectifau a godwyd gan y cyfranogwyr yn adlewyrchu'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr a gyfrannodd eu barn ar lein neu drwy'r post. Mae hyn yn bwysig, ac yn dilysu ac yn cadarnhau barn a phersbectifau a godwyd ar draws yr ymgynghoriad. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod yn yr adrannau canlynol.

Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol tuag at y cynigion na'r rhai a oedd yn ymateb ar lein a thrwy'r post. Er bod gwrthwynebiad ac eglurhad, roedd cyfranogwyr yn dueddol o ganolbwyntio ar oblygiadau mwy cadarnhaol y cynigion. Gallai sawl ffactor fod yn gyfrifol am hyn. Mae'n bosibl y gallai cyfranogwyr gyfleu barn gryfach a mwy negyddol tuag at y cynigion o fewn trafodaethau lle'r oeddent yn teimlo y gallent fod yn annerbyniol i'r grŵp ehangach. Mae'n bosibl hefyd nad yw barn a phersbectifau'r ymatebion ehangach yn adlewyrchiad cywir o'r gymuned ehangach o rieni a gofalwyr yng Nghymru. Canfyddiad pellach o'r grwpiau ffocws yw bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynigion yn brin ar y cyfan, ac mewn rhai achosion ceir camddealltwriaeth. Mae'r materion hyn yn cael eu hymchwilio'n fanylach drwy gydol yr adroddiad.

1.3 Dull Dadansoddi

Er mwyn deall yr holl faterion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Hydref 2019, comisiynwyd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Roedd y dadansoddiad yn ceisio deall a mapio amrediad y safbwyntiau a'r persbectifau sydd gan ymatebwyr ynghylch y cynigion am AG ac ACRh.

Roedd yr ymatebion wedi cynnig amrediad o wybodaeth ansoddol. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, wedi gofyn nifer o gwestiynau, yr oeddent yn holi ymatebwyr am eu safbwyntiau am effaith bosibl y cynigion. Er mwyn gwneud synnwyr o'r persbectifau a fynegwyd gan ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad manwl o'r cynnwys. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb mewn ffordd systematig, gan amlygu'r themâu a'r materion a godir.

Ceir nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r dadansoddiad hwn, y mae'n bwysig eu nodi. Nid yw'r ymatebwyr a gyfrannodd eu safbwyntiau a'u persbectifau yn gynrychioliadol o gymuned ehangach rhieni, athrawon, neu'r cyhoedd ehangach yn gyffredinol o reidrwydd. Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod yr ymatebion yn cynnig syniad o safbwyntiau, teimladau a barn y gymuned yn gyffredinol, yn hytrach na'u bod yn ddatganiad pendant.

Oherwydd tebygolrwydd uchel hunanddewis, nid ydym wedi ceisio cyfrif sawl ymatebydd oedd yn meddu ar farn benodol. Mabwysiadwyd dull ansoddol, gyda'r nod o gyfleu dealltwriaeth o amrediad y prif themâu a'r materion a godwyd gan ymatebwyr, yn ogystal â'r rhesymau dros feddu ar safbwyntiau penodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl y byddai'r gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno drostynt.

Rhaid ystyried y dehongliad o'r cydbwysedd rhwng gwahanol safbwyntiau yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnir hefyd, gan nad oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn, ac nid oedd pob ymatebydd wedi rhoi digon o wybodaeth er mwyn ymhelaethu ar eu safbwyntiau mewn ffordd fanwl. Yn hyn o beth, mae termau ansoddol yn amlygu safbwyntiau sy'n berthnasol i'r cwestiynau ar sail y rhai a ymatebodd yn unig. Felly, ni ellir cymryd eu bod yn cysylltu mewn nifer gyda chyfanswm y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd, neu gyda'r gymuned addysgol.

Gyda'i gilydd, dylid dehongli'r dadansoddiad hwn fel un sy'n cynnig amrediad y safbwyntiau y mae ymatebwyr yn eu dal, nid cyffredinolrwydd safbwyntiau o fewn y gymuned gyfan.

2 Persbectifau Plant a Phobl Ifanc

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o ddadansoddiad ar wahân o bersbectifau plant a phobl ifanc tuag at y cynigion. Cynhaliwyd ugain grŵp ffocws gan Dynamix gyda phlant a phobl ifanc ar draws Cymru rhwng 8 a 28 Tachwedd 2019. Cynhaliwyd deg grŵp mewn ysgolion Cynradd, wyth mewn ysgolion Uwchradd a dau grŵp ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.

At ei gilydd, roedd 279 o ymatebwyr wedi rhoi adborth trwy'r grwpiau ffocws a'r arolwg ar-lein.

2.1 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae dadansoddiad o'r ymatebion a roddwyd gan gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad yn dangos bod ACRh yn bwnc anodd i ddysgwyr ei drafod, ac mae'n peri i nifer o ddysgwyr deimlo'n anghyfyrdus neu'n chwithig. Fodd bynnag, roeddent yn gweld hefyd bod y pwnc hwn yn ymwneud â gwneud ffrindiau a meithrin perthnasoedd iach. Y prif beth y mae dysgwyr yn ei gael gan wersi ACRh ar hyn o bryd yw'r hyn y maent yn ei ddysgu am eu cyrff, sut y maent yn ymwneud ag eraill, cadw'n ddiogel a bwlio.

Teimlwyd y gallai'r newidiadau gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr ac ysgolion. Y thema gyson yn ystod y trafodaethau hyn oedd y gallai'r newidiadau hyn arwain at ddysgwyr ac amgylchedd ysgol mwy gwybodus a mwy goddefgar, a allai gael effaith gadarnhaol ar rieni trwy sicrhau y caiff hyn ei drafod mewn ysgolion, a allai dynnu'r pwysau oddi ar rieni i gael y sgysiau yn y cartref. Teimlwyd y byddai dysgu cyson i bawb yn y maes hwn yn arwain at ddysgwyr mwy gwybodus wrth iddynt ddod yn oedolion, ac y byddai hyn yn helpu i greu gwell dealltwriaeth a goddefgarwch.

Mae'r dadansoddiad o'r canlyniadau yn dangos y gallai'r effaith fwyaf negyddol fod ar rieni, oherwydd y byddai'n tynnu eu dewis oddi arnynt ynghylch sut y byddai eu plant yn dysgu am ACRh. Roedd y rhai o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma yn teimlo y byddai gwneud hwn yn rhywbeth gorfodol yn cael effaith anferth ar ddysgwyr oherwydd y gallai eu rhieni benderfynu eu tynnu allan o addysg. Roedd plant a phobl ifanc yn y gymuned hon yn teimlo'n swil iawn am y pwnc hwn ac roeddent yn teimlo'n gryf yn erbyn dysgu yn y maes hwn. Rhannwyd yr ymdeimlad o deimlo'n chwithig ac yn swil am y maes dysgu hwn ar draws pob grŵp. Teimlwyd hefyd y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol ar ysgolion wrth iddynt orfod delio gyda chwynion rhieni ac y byddai angen cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gwersi yn briodol i oedran y plant dan sylw ac yn wybodus. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai mynnu bod y dysgu hwn yn orfodol arwain at ymddygiad gwael ymhlith disgyblion, ac y gallai gynyddu nifer yr achosion bwlio, a fyddai'n cael effaith ar yr ysgolion oherwydd y bydd yn rhaid iddynt ddelio gyda'r ymddygiad hwn ymhlith disgyblion.

Er mwyn cynorthwyo'r newidiadau hyn, awgrymwyd bod angen hysbysu rhieni o'r hyn sy'n digwydd. Mae angen cyfleu hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mewn negeseuon

e-bost, testun, llythyrau, cylchlythyrau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dylid darparu gwybodaeth am yr hyn a addysgir o fewn ACRh a phryd. Byddai angen i athrawon gael yr hyfforddiant cywir a dylid addasu gwersi er mwyn bodloni gwahanol anghenion a galluoedd. Bydd cynnwys dysgwyr a rhieni mewn trafodaethau yn helpu'r trawsnewid hefyd.

2.2 Addysg Grefyddol

Roedd sgysiau am AG gyda dysgwyr yn haws na'r rhai ynghylch ACRh. Roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae AG yn ymwneud ag ef a'r hyn y maent yn ei ddysgu yn y maes hwn ar hyn o bryd. Roedd hi'n glir bod dysgwyr yn gweld AG fel rhywbeth sy'n cynnwys dysgu am bob crefydd, gyda ffocws cryf ar Gristnogaeth, ar draws yr ymatebion a roddwyd. Roedd dysgu o fewn AG yn cynnwys dysgu am bobl, hanes ac arferion hefyd. Teimlwyd bod dysgu am grefyddau a phobl yn helpu i leihau hiliaeth a bwlio. Rhannwyd y farn ymhlith rhai dysgwyr – gyda hanner yn mynegi diddordeb yn y maes dysgu hwn a hanner heb fod yn mynegi diddordeb ynddo. Barnwyd hefyd mai dysgwyr yn gwrthwynebu i ddysgu am y maes hwn fyddai effaith fwyaf negyddol mynnu bod dysgu AG yn orfodol.

Teimlwyd hefyd y dylai dysgwyr gael dewis ynghylch a ydynt yn dymuno mynychu'r gwersi hyn neu beidio. Fodd bynnag, roedd hi'n glir o'r grwpiau ffocws y byddai astudio AG yn peri i ddysgwyr fod yn fwy gwybodus a goddefgar. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar rieni hefyd, oherwydd y byddent yn hapus o wybod bod eu plant yn dysgu am grefyddau eraill ac y byddent yn dysgu am barch. Teimlwyd y gallai amgylchedd yr ysgol wella wrth i ddysgwyr fod yn fwy gwybodus, ac felly yn fwy goddefgar, ac o ganlyniad, gallai hyn arwain at lai o fwlio.

Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r canlyniadau yn dangos bod dysgwyr yn teimlo y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr sydd â chredo crefyddol ac na fyddent yn dymuno i'w plant ddysgu am grefyddau eraill yn yr ysgol. Gallai'r newidiadau hyn gael effaith negyddol ar ysgolion oherwydd y gallai gweithredu hyn gostio arian, a byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon. Teimlwyd y gallai effaith gwrthwynebiadau dysgwyr a rhieni i'r cam o fynnu bod y gwersi hyn yn orfodol, effeithio ar ysgolion hefyd oherwydd y byddai'n rhaid iddynt ddelio gydag ymddygiad aflonyddgar mewn dosbarthiadau a chwynion gan rieni. Awgrymwyd y dylid estyn gwahoddiad i bobl y mae ganddynt wahanol gredoau crefyddol a diwyllianau ac y maent yn dod o wledydd y tu allan i'r DU, i ddod i siarad â dysgwyr fel rhan o'u haddysg ac y dylai AG gynnwys dysgu am gredoau anghrefyddol.

Ni welwyd cefnogaeth eang i'r awgrymiadau a wnaethpwyd ynghylch newid enw Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd. Roedd defnyddio'r term 'moeseg' wedi peri dryswch i nifer o gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad. Pleidleisiodd mwyafrif (59%) y cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad dros awgrymiadau newydd am yr hyn a elwir AG yn y cwricwlwm newydd. Cynigiwyd dros 50 awgrym newydd gan gyfranogwyr, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi parhau i ddefnyddio'r term 'Crefydd', gan gynnwys diwylliant ar draws y byd, cyfeillgarwch, sgiliau cymdeithasol.

Er mwyn cynorthwyo'r newidiadau hyn, awgrymwyd y dylid hysbysu rhieni trwy gyfrwng sianelau amlgyfrwng fel cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, llythyrau, taflenni,

teledu a fideos. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i gael trafodaethau wyneb yn wyneb hefyd, gan gynnwys rhieni a phlant wrth wneud penderfyniadau. Barnwyd hefyd bod hyfforddiant i athrawon yn rhywbeth a fyddai'n helpu i'r newidiadau hyn weithio. Yn ogystal â chymorth ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol.

2.3 Ni ddylai rhieni plant sydd ym mlwyddyn 8 a throsodd fod yn gallu atal eu plentyn rhag cael gwersi AG neu ACRh o fis Medi 2022

Roedd mwyafrif yr cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad yn teimlo y dylai'r newidiadau hyn fod yn berthnasol i ddysgwyr ym mlwyddyn 8 a throsodd o fis Medi 2022, yn ogystal â'r rhai ym mlwyddyn 7, gan bod angen sicrhau cysondeb o ran y dull gweithredu ar draws pob oedran. Nodwyd hefyd na ddylai rhieni fod yn gallu tynnu eu plant allan o'r gwersi hyn ac y dylai hwn fod yn ddewis i'r dysgwr. Fodd bynnag, gwnaethpwyd sylwadau am briodoldeb mynnu bod y gwersi hyn yn rhai gorfodol i blant iau.

2.4 Effaith ar yr iaith Gymraeg

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo na fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu i drin y Gymraeg yn yr un modd â'r ffordd y caiff y Saesneg ei thrin. Ar yr amod y darparir yr adnoddau cywir yn ddwyieithog, teimlwyd y gallai'r newidiadau hyn ehangu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg trwy gyflwyno geirfa newydd. Roedd y rhai a oedd mewn ysgolion lle y siaradir Cymraeg yn cefnogi hyn gan eu bod yn teimlo y byddent yn parhau i gael eu haddysg yn Gymraeg ta beth. Fodd bynnag, amlygodd un cyfranogydd bod angen buddsoddi mewn adnoddau dwyieithog, nad ydynt ar gael ar gyfer cwrs TGAU Astudiaethau AG ar hyn o bryd.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo y gellid gwneud newidiadau i'r cynllun er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl yn siarad Cymraeg ac yn trin y Gymraeg yn yr un modd â'r Saesneg. Unwaith eto, roedd hyn yn ymwneud ag argaeledd adnoddau ACRh ac AG yn Gymraeg. Nododd rhai cyfranogwyr hefyd bod angen bod mwy o addysg cyfrwng Cymraeg ar gael.

3 Effaith y Cynigion

Gan fod cwestiynau gydag ymateb ie/na eisoes wedi cael eu holi yn ymwneud ag egwyddorion cael yr hawl i dynnu plentyn allan yn y Papur Gwyn blaenorol, pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd canfod safbwyntiau pellach ynglŷn â'r goblygiadau posibl pe na fyddai'r hawl i dynnu plentyn allan yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd. Gan hynny, nid oedd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol i ymatebwyr a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion ar y cyfan.

Fodd bynnag, er mwyn helpu i ddeall cydbwysedd y farn gyda'r safbwyntiau a fynegwyd yn y Papur Gwyn blaenorol lle'r oedd 89 y cant o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig i waredu'r hawl i dynnu plentyn allan, er diben yr adroddiad hwn, rydym ni wedi ceisio cael blas o'r agweddau cadarnhaol a negyddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd cwestiwn 1 yn yr ymgynghoriad yn gofyn am farn o ran y goblygiadau i ddysgwyr, rhieni a gofawyr ac ysgolion pe byddai'n ofynnol i'r holl ddysgwyr dderbyn gwersi AG a/neu ACRh yn y cwricwlwm newydd.

Dadansoddwyd ymatebion i gwestiwn 1 lle'r oedd ymatebwyr yn mynegi barn a oedd yn amlygu goblygiadau cadarnhaol neu negyddol yn benodol ac yn gyfan gwbl. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ymateb negyddol, gyda 991 o achosion yn cael eu cofnodi (60 y cant); roedd 349 yn amodol, yn mynegi goblygiadau cadarnhaol a negyddol (21 y cant); ac roedd 320 ohonynt yn gadarnhaol (19 y cant). Fodd bynnag, ceir cafeat ynghylch y data hwn gan nad oedd yr ymgynghoriad yn holi ymatebwyr yn benodol a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion ar y cyfan. Mae'n bosibl felly bod y dadansoddiad hwn yn goramcangyfrif gwrthwynebiad i'r cynigion, gan gynnwys yr ymatebwyr hynny nad ydynt yn gwrthwynebu'r cynigion yn gyfan gwbl ond wedi dewis codi pryderon a goblygiadau penodol.

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar oblygiadau posibl y cynigion i ddysgwyr, rhieni a gofawyr, a'r ysgolion yn ehangach, fel a ganlyn:

3.1 Hysbysu Plant a Phobl Ifanc

Syniad allweddol a oedd yn cysylltu ymatebion mwy cadarnhaol oedd rôl pwysig AG ac ACRh wrth gynnig mynediad i blant a phobl ifanc i wybodaeth sy'n eu galluogi i ymdopi'n llwyddiannus yn y byd o'u cwmpas. O'r persbectifau hyn, roedd AG yn cynnig dirnadaeth bwysig i ddysgwyr, y gallai eu helpu i ddeall a chysylltu gyda gwahanol bobl, cymunedau, traddodiadau, credoau neu fyd-olygon:

Mae plant eisoes yn ymwybodol iawn. Mae fy merch hynaf yn saith oed. Mae ganddi ffrind sy'n... nid oedd wedi cyfeirio at grefydd penodol. Roeddwn yn gwybod ei bod yn Hindi gan ei bod wedi sôn am nifer o wahanol Dduwiau. Ac maen nhw'n cael sgysiau ar y maes chwarae. Felly daeth gartref o'r ysgol a dywedodd, 'wel rydym ni yn credu mewn un Duw ac maen nhw yn credu mewn sawl Duw, sut mae hynny'n bosibl?' Felly cawsom sgwrs agored iawn am grefydd, felly credaf bod plant

eisoes yn ymwybodol iawn ohono. Maent eisoes yn ymwybodol iawn o'r cyfryngau a'r hyn y maent yn ei weld a'r ffordd y caiff crefyddau penodol eu stereoteipio... wn i ddim, ni allaf feddwl am y gair. Felly credaf bod angen i blant gael gwybodaeth er mwyn iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Rhiant/Gofalwr

Roedd pryderon am y wybodaeth a'r syniadau y bydd plant a phobl ifanc yn eu cael y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i ffwrdd o'r teulu yn aml yn fframio'r persbectifau hyn. O'r persbectif hwn, roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo bod AG ac ACRh yn bwysig wrth ddarparu gwybodaeth gytbwys a diduedd sy'n gallu diogelu a grymuso plant a phobl ifanc:

Y dyddiau hyn, bydd pobl ifanc yn troi at ddeunydd annymunol iawn yn y cyfryngau ynghylch rhyw, a dylai addysg gywir ynghylch rhyw yn yr ysgol gynnig cydbwysedd o'i gymharu ag ef... Mae gallu adnabod arwyddion perthnasoedd da a drwg yn hanfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth i bobl ifanc ddeall pan fydd rhai perthnasoedd yn croesi llinell.

Rhiant/Gofalwr

Elfen arall a ystyriwyd oedd y potensial i AG ac ACRh gynorthwyo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant a phobl ifanc. O'r persbectif hwn, nid yw AG ac ACRh yn ymwneud â chyfleu gwybodaeth yn unig, ond hefyd, mae'n ymwneud â chynnig y ffordd i blant a phobl ifanc ffynnu:

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol yn gefnogwr angerddol pwysigrwydd Addysg Grefyddol (AG) fel rhan hanfodol o gwricwlwm eang a chytbwys sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer eu bywyd yn y Brydain fodern... Mae gan ddysgwyr yr hawl i ddisgwyl cwricwlwm sy'n diogelu, sy'n hysbysu ac sy'n meithrin pob disgybl... dylai ACRh sicrhau bod plant yn gallu coleddu eu hunain ac eraill fel rhai unigryw ac a grëwyd mewn ffordd hyfryd, cadw eu hunain yn ddiogel a'u bod yn gallu meithrin perthnasoedd iach lle y maent yn parchu ac yn rhoi urddas i eraill. Bydd yn darparu'r wybodaeth i ddisgyblion a fydd yn eu galluogi i ymdopi a phennu'r cyd-destun mewn byd lle y bydd nifer yn ceisio dweud wrthynt sut i ymddwyn, yr hyn i'w wneud a'r hyn i'w feddwl. Bydd yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau i fynegi eu safbwyntiau eu hunain ac i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain.

Cymdeithas Genedlaethol Hyrwyddo Addysg

3.2 Priodoldeb y Ddarpariaeth

Roedd priodoldeb y ddarpariaeth yn faes amlwg a oedd yn peri pryder ymhlith ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion yn gyffredinol. O'r persbectif hwn, mae'n ymddangos bod ACRh wedi cael mwy o sylw gan ymatebwyr. Mae'n ymddangos bod nifer yn canolbwyntio eu pryder ar y datgysylltiad rhwng gwerthoedd rhieni a gofalwyr a'r ffocws ymddangosiadol ar gynnwys a darpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â rhyw a pherthnasoedd:

Rydw i'n fam-gu/gofalwr ac rydw i'n teimlo'n bryderus iawn am y newidiadau hyn y sonnir amdanynt. Mae gwerthoedd y cartref yn bwysig iawn i'm teulu, a bod modd i'r plant gael a mwynhau diniweidrwydd plentyndod. Byddai ACRh yn cyflwyno

syniadau a allai fod yn groes i'n gwerthoedd ni yn y cartref, gan beri dryswch ac ymwahaniad yn ystod cyfnod mewn plentyndod pan addysgir sylfeini.

Rhiant/Gofalwr

Roedd ymatebwyr wedi cyfeirio'n aml at briodoldeb y ddarpariaeth ACRh i oedran y plant dan sylw. Roedd rhieni a gofalwyr a gyfeiriodd at y mater hwn yn aml yn mynegi pryderon ynghylch lles, gan gynnwys yr arfer o rywioli plant a phobl ifanc. O'r persbectif hwn, gallai ACRh waethygu'r pryderon hyn, yn hytrach na rhoi sylw iddynt:

Yn fy marn i, byddai'n wych pe bai pob plentyn yn cael Addysg Grefyddol, er mwyn iddynt ddysgu mwy am ein cymdeithas. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon difrifol am gynnwys yr addysg ynghylch rhywioldeb, ac oedrannau'r plant fydd yn cael y ddarpariaeth hon. Fel rhiant plentyn yn y blynyddoedd cynnar, nid ydw i'n dymuno i'm plentyn glywed am faterion nad yw hi'n ddigon aeddfed i'w deall neu nad oes angen iddi gael gwybod amdanynt hyd yn oed, o ystyried ei bod yn blentyn mor ifanc.

Rhiant/Gofalwr

Roedd ymatebwyr yr oeddent yn gwrthwynebu i'r diwygiadau yn gyffredinol yn teimlo y gallai'r addysgu fod yn anghydnaws â safbwyntiau a phersbectifau'r teulu, ac roedd hyn yn cyd-fynd yn agos â'r pryderon ynghylch priodoldeb y ddarpariaeth. Roedd yr ymatebion hyn yn ceisio sicrhau bod y cynigion yn cynnal sensitifrwydd diwylliannol a chrefyddol, yn enwedig ynghylch dymuniadau a chredoau'r teulu. At hynny, roedd y pryderon hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar y ddarpariaeth ACRh:

Rydw i'n pryderu y byddai fy mhlant yn cael eu haddysgu am egwyddorion sy'n mynd yn groes i ffydd ein teulu yn Nuw, a'r egwyddorion Cristnogol a nodir yn y Beibl Cysegr-lân. Addysgir ein plant yn y cartref am berthnasoedd a rhywioldeb, yn unol â'n credoau personol. Mae gorfodi'r cwricwlwm hwn a'r hyn y mae'n ei addysgu ar bob dysgwr yn torri eu hawliau dynol mewn perthynas â gallu pob unigolyn yn y wlad hon i arfer eu ffydd a'u credoau yn rhydd.

Rhiant/Gofalwr

Teimlwyd y persbectif hwn yn gryf gan rai yn y gymuned Fwslimaidd:

Mae'r rhain yn feysydd personol sensitif iawn ac mewn sefyllfa ddelfrydol, byddai athrawon yn cael deialog iach gyda rhieni a chaiff consensws ei sicrhau bob tro, ond beth fydd yn digwydd os na fyddant yn gallu cytuno? Fel rhiant Mwslimaidd, anaml y byddaf yn tynnu fy mhientyn allan, ond mae wastad wedi bod yn gysur gwybod bod fy hawliau yn bodoli pe bawn fyth yn teimlo nad yw gwers yn addas i'm plentyn... teimlaf bod yr hawl i dynnu plentyn allan wastad wedi bod yn ffordd wych o gydnabod a rhoi sylw i amrywiaeth dysgwyr/cymunedau, gan barchu eu cefndiroedd... Os bydd gan rieni fyth bryderon am ansawdd yr addysgu mewn maes sensitif o'r fath, dylent deimlo'n ddiogel gan wybod y gallant dynnu eu plant allan o'r dosbarth hwnnw yn ôl yr angen.

Rhiant/Gofalwr

Mynegwyd pryderon mwy penodol am y dybiaeth y byddai ACRh yn hyrwyddo perthnasoedd rhwng pobl o'r un rhyw. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth hon yn mynd yn groes i addysgu crefyddol. Roedd eraill yn teimlo y gallai hyn fod yn ddryslyd i blant. O'r persbectif hwn, roedd ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at bryderon ynghylch pontio o un rhyw i'r llall a'r effaith negyddol y tybir y gall hyn ei chael ar bobl ifanc:

Gallai AG ac ACRh gael eu haddysgu o safbwynt ideolegol cryf. At ei gilydd, anaml y bydd hyn yn peri problem o fewn AG yn fy mhrofiad i, er y gallai ac felly, byddwn yn dymuno i riant sy'n Iddew neu'n Fwslim gael y rhyddid i dynnu eu plentyn allan o ddosbarth Cristnogol. Mae hyn yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y cwricwlwm ACRh, fodd bynnag, o ganlyniad i'r agenda gref iawn a gaiff ei hyrwyddo o fannau penodol ar yr adeg hon. Mae damcaniaeth queer, yn arbennig, yn gysyniad nad oes ganddo sylfaen mewn gwyddoniaeth, er ei bod yn cael ei hyrwyddo fel pe bai ganddi sylfaen o'r fath. Mae'r goblygiadau i bobl ifanc yn arbennig o arwyddocaol, gan ei bod yn hawdd gwneud argraff arnynt. Mae angen cymorth ar bobl ifanc wrth iddynt ymdopi mewn byd sy'n mynd yn fwy cymhleth a brawychus. Nid oes angen addysgu damcaniaeth iddynt a fyddai'n eu siglo ymhellach, gan beri iddynt wneud newidiadau di-droi'n-ôl i'w cyrff pan nad ydynt wedi cyrraedd oedran lle y gallant ffurfio barn ddoeth.

Rhiant/Gofalwr

3.3 Hyrwyddo Goddefgarwch

Thema arall a gynigiwyd gan y rhai a oedd yn gefnogol o'r diwygiadau ar y cyfan oedd rôl AG ac ACRh wrth hyrwyddo goddefgarwch mewn cymdeithas. Roedd ymatebwyr yn aml yn mynegi'r ffaith y gallai addysg blwrailaethol, niwtral a beirniadol hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol gyda a dealltwriaeth o wahaniaeth:

Os ydym yn parhau i deimlo bod dealltwriaeth, goddefgarwch, amrywiaeth, empathi a chwilfrydedd yn werthoedd sy'n bwysig ar gyfer twf unigol a chymdeithas iach, mae cael addysg o fewn amrywiaeth eang perthnasoedd, mynegi rhywioldeb, systemau cred a safbwyntiau moesegol sy'n bodoli yn hanfodol. Bydd cael y profiadau hyn fel rhan o'r system addysg ffurfiol yn caniatáu dealltwriaeth ehangach o'r pwyntiau hyn, gan ganiatáu i bobl ddehongli profiadau yn well yn ystod eu bywydau sy'n deillio o'r pethau hyn.

Unigolyn

Adlewyrchwyd y teimladau hyn gan rai yn y gymuned addysgol hefyd, yr oeddent yn teimlo bod hyrwyddo goddefgarwch yn arwain at oblygiadau pwysig o fewn gatiâu'r ysgol a thu hwnt gatiâu'r ysgol:

Cwricwlwm eang a chytbwys. Carfan o ddysgwyr ifanc llawn parch ac y mae ganddynt feddwl agored. Amgylchedd dysgu sy'n fwy gofalgwr a digyffro. Plant sy'n deall ac yn gwerthfawrogi ei gilydd. Llai o hiliaeth. Llai o feichiogi yn yr ardegau. Mwy o ddealltwriaeth o'u cyrff eu hunain. Helpu i ymladd yn erbyn stereoteipiau.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

3.4 Gwella Lles

At hynny, roedd y sawl a oedd o blaid y cynigion yn pwysleisio potensial AG ac yn arbennig, potensial ACRh i gynorthwyo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol a lles plant a phobl ifanc. Soniodd ymatebwyr am amrediad o fanteision posibl. Amlygodd NSPCC, er enghraifft, rôl ACRh wrth ddatblygu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o ymddygiad amhriodol neu gamdriniol:

Mae NSPCC Cymru yn cefnogi'r cynnig i beidio cynnwys yr hawl i dynnu plant allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd... Credwn mai'r ffordd orau o'i ddarparu yw fel rhan o ddull ar draws ysgol gyfan lle y caiff ei ymwreiddio ar draws y cwricwlwm ac mewn polisiau ehangach, ethos, ymddygiad a chyfathrebu yn yr ysgol. Mae sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn i bob dysgwr yn cynnig cyfle pwysig i blant yng Nghymru, am y tro cyntaf, i gael eu haddysgu mewn ffordd gyson am sut i adnabod cam-drin neu ymddygiad amhriodol a sut i fynegi unrhyw bryderon neu ofidiau gydag oedolyn yr ymddiriedir ynddynt...

NSPCC Cymru

Cadarnhawyd y mater hwn gan Sefydliad Gwylio'r Rhynggrwyd, sefydliad sy'n monitro ac sy'n adrodd am ddelweddau a fideos o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Ymatebodd y sefydliad er mwyn amlygu'r ffaith bod y cynnydd a welwyd mewn deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn cefnogi'r cam o gael deialog fwy agored a gwybodus gyda phlant a phobl ifanc am berthnasoedd a diogelwch ar-lein:

Er 2012, mae'n dadansoddwyr wedi nodi cynnydd sylweddol yn nifer y delweddau a'r fideos rhywiol hunangynrchedig o blant y maent yn eu hasesu ac yn gweithredu i'w dileu. Yn gynyddol, caiff plant eu paratoi, eu twyllo a'u gorfodi i berfformio mewn ffordd rywiol o flaen camera... Wrth i blatfformau a dyfeisiau esblygu ar raddfa ddigyffelyb, rhaid bod plant yn gallu ymdopi mewn ffordd ddiogel yn y byd digidol. Mae'r broblem hon yn gwaethygu, gan bod ein dadansoddwyr yn nodi mwy o ddeunydd o'r natur hwn bob blwyddyn... Wrth i'r byd ar-lein a'r byd all-lein ymblethu fwyfwy, mae'n hollbwysig bod plant yn deall natur perthnasoedd ar-lein a sut y gall y rhain fod yn destun camfanteisio.

Sefydliad Gwylio'r Rhynggrwyd

Yn y cyfamser, amlygodd ymatebwyr eraill rôl ACRh wrth helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau mwy gwybodus ac iach ynghylch perthnasoedd ac agosrwydd. Roedd y persbectif hwn yn aml yn cyfeirio at y dybiaeth hefyd nad yw sgysiau a geir yn y cartref wastad o gymorth wrth hysbysu neu gynnig arweiniad i blant a phobl ifanc:

Pwysleisiwyd yn aml yr angen i ddatblygu deallusrwydd emosiynol yn ein system addysg ac mewn cymdeithas mewn ffordd well. Mae darparu cwricwlwm ACRh sy'n briodol i oedran y plant dan sylw yn elfen hanfodol er mwyn i bob plentyn ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol. Er y bydd rhai yn dadlau mai'r lle gorau i addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw yn y cartref, rydym yn gwybod o dystiolaeth bod hyn (a) heb fod yn cael ei wneud o gwbl neu'n cael ei wneud mewn ffordd wael iawn mewn nifer o achosion a (b) bod trafod hyn mewn ffordd sy'n briodol i oedran y

plant dan sylw gyda grŵp cymheiriaid yn ychwanegu dimensiwn angenrheidiol i addysg pob plentyn.

Rhiant/Gofalwr

3.5 Sicrhau Hawliau Rhieni a Gofalwyr

Maes a oedd yn peri pryder sylweddol ymhlith rhieni a gofalwyr oedd y dybiaeth bod eu hawliau'n cael eu herydu yn y cynigion. O'r persbectif hwn, roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo fel pe bai ganddynt rôl sylfaenol i'w gyflawni yn natblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol eu plant. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion, a'r cyfle i optio allan o ddarpariaeth arbennig yn benodol, danseilio neu wanhau'r rôl hwn o bosibl:

Rhieni yw addysgwyr pennaf a gorau eu plant ac maen nhw'n gwybod pryd y bydd eu plentyn yn barod i gael gwybodaeth sensitif. Nid materion ffeithiol yw'r rhain yn anad dim a dylid cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chredoau teuluol, ethnig a diwylliannol. Ni ddylid gwaredu hawliau rhieni trwy erydu eu hawl i dynnu plentyn allan os ydynt yn teimlo mai hynny yw'r peth iawn i'w wneud.

Rhiant/Gofalwr

Yn aml, roedd y teimladau hyn yn ystyried gallu rhieni a gofalwyr i farnu a yw gwybodaeth a materion yn briodol ar lefel ddatblygiadol ac yn sensitif i gredoau'r teulu:

Ni fydd pob dysgwr yn dysgu ar yr un cyflymder ac nid yw pob un ohonynt ar yr un lefel o ran dealltwriaeth pan ystyrir Saesneg a mathemateg – heb sôn am sgiliau cymdeithasol ac addysg ynghylch perthnasoedd. Rhieni sy'n adnabod eu plant orau, felly gallant ddarparu lefel ofynnol y wybodaeth mewn ffordd addas ar gyfer y plentyn yn benodol, a'u credoau a'u gwerthoedd moesol yn y cartref.

Rhiant/Gofalwr

Am wahanol resymau, roedd y rhai sydd â ffydd yn ogystal ag anffyddwyr a dyneiddwyr wedi lleisio'u barn yn gryf am sicrhau hawliau rhieni. Roedd y rhai sydd â ffydd yn tueddu i ganolbwyntio eu gwrthwynebiadau i'r cynigion ar sail yr hyn yr oeddent yn credu y byddai'n cael ei ddysgu o fewn ACRh:

Ni fyddwn yn dymuno i unrhyw rai o'm plant fynychu'r gwersi ACRh. Byddai fy rhesymau yn seiliedig ar fy nghredoau crefyddol, gan fy mod yn gwrthwynebu'n fawr i gynnwys y cwricwlwm fel y'i cynigiwyd. Rydw i'n cydnabod bod hwn yn faes ymddygiad cymdeithasol a allai fod yn dderbyniol ac sydd yn dderbyniol i rai. Nid yw'n dderbyniol i mi, felly byddwn yn tynnu unrhyw aelod o'm teulu allan o ddsbarth lle y byddai hwn yn cael ei addysgu.

Rhiant/Gofalwr

Ar y llaw arall, roedd y rhai heb grefydd, megis anffyddwyr a dyneiddwyr, yn tueddu i wrthwynebu oherwydd eu bod yn dymuno optio allan o AG a darpariaeth ehangach o gymeriad crefyddol:

Rydw i'n ofni y byddai'r newidiadau hyn yn caniatáu i'n hysgolion eglwys addysgu eu ffydd heb gyfyngiadau.

Rhiant/Gofalwr

Er y gellir addysgu AG mewn ffordd sy'n wrthrychol mewn ffordd debyg, nid yw hyn yn wir mewn ysgolion ffydd, y maent, yn ôl y gyfraith, yn dilyn meysydd llafur ar wahân a gaiff eu paratoi gan gyrff crefyddol ac sy'n ystyried y pwnc trwy lens crefyddol. Os gwaredir yr hawl i dynnu plant allan, mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n dod o deuluoedd anghrefyddol neu'r rhai y mae eu credoau crefyddol yn wahanol i gredoau'r ysgol, yn cael eu gorfodi i fynychu gwersi a gynlluniwyd i'w trwytho i bob pwrpas mewn persbectif crefyddol nad ydynt yn ei rannu.

Rhiant/Gofalwr, Ymgyrch

At hynny, roedd gan rai yn y gymuned addysgol amheuan ynghylch gwaredu'r hawl i rieni optio allan. O'r persbectifau hyn, gallai gwaredu'r hawl i optio allan gael effaith niweidiol ar y perthnasoedd cadarnhaol rhwng ysgolion, athrawon, rhieni a gofalwyr:

Byddai'r cynigion i waredu hawl rhieni i dynnu plant allan yn cael effaith niweidiol: maent yn ymosod ar hawl rhieni i gael y lle blaenaf yn addysg eu plant, egwyddor sylfaenol yn y farn Gatholig am addysg.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Ceir pobl, y mae ganddynt resymau crefyddol, neu y mae ganddynt resymau dilys a da – rhesymau moesol da i'w hunain ac i'w plant – pam y byddent yn dymuno optio allan... I rai pobl, [mae'r cynigion] yn mynd i fod yn rhywbeth y byddant yn gwrthwynebu'n chwynr iddynt, ac mae angen i ni weld rhieni yn ymgysylltu ag addysg fel eu bod yn cynorthwyo dysgu eu plant. Os byddwn yn creu sefyllfa lle y mae mwy a mwy o rieni yn teimlo fel pe bai'r ysgol yn elyn, credaf bod perygl go iawn y byddai nifer fach sylweddol – byddai'n ganran fach iawn ar lefel ystadegol – yn tynnu eu plant allan o'r ysgol yn gyfan gwbl efallai, pe na byddai'r hawl i optio allan yn bodoli. Felly, mawr obeithiaf y bydd modd mabwysiadu dull mwy hyblyg yn hyn o beth.

Llywodraethwr Ysgol

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr y gallai gwaredu'r dewis i optio allan arwain at rieni yn tynnu eu plant allan o addysg prif ffrwd yn gyfan gwbl:

Mae hwn yn bryder pellach, sy'n gysylltiedig â'r cymal tynnu allan ei hun yn benodol: efallai y bydd rhieni sy'n dymuno tynnu eu plentyn allan o wersi AG am resymau gwirioneddol iddyn nhw sy'n ymwneud â chredo crefyddol/byd-olwg penodol, os na fyddant yn gallu manteisio ar y cymal mwyach, yn dewis tynnu eu plentyn allan o'r ysgol yn gyfan gwbl yn lle hynny (a'u haddysgu yn y cartref efallai).

Unigolyn

3.6 Sicrhau Hawliau'r Plentyn

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at y ffaith bod hawliau'r plentyn i gael addysg gytbwys ac eang yn bwysig yn y ddadl ynghylch mynediad i'r cwricwlwm. O'r persbectifau hyn, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau rhieni a gofawr i bennu a siapio addysg eu plant, gyda hawliau'r plentyn i gael addysg:

Mae'n ymddangos bod y ffaith y gellir tynnu dysgwyr allan o bwnc academaidd fel AG, ac na ellir eu tynnu allan o unrhyw bwnc academaidd arall, yn anghysondeb. Yn wir, mewn rhai o'r pynciau hynny, byddai sylw yn cael ei roi i'r un cysyniadau a materion mewn ffordd debyg i AG. Dylai fod modd i ddysgwyr fanteisio ar y cwricwlwm llawn... Yn sicr, byddai dysgwyr a fyddai'n cael eu tynnu allan o AG yn y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu heffeithio mewn ffordd niweidiol, yn enwedig os ystyrir y cysylltiadau a'r cyd-ddibyniaeth o fewn a rhwng [Meysydd Dysgu a Phrofiad]. Byddai'n llawer mwy anymarferol hefyd yn y cwricwlwm newydd i ysgolion reoli trefniadau i dynnu allan o AG pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid.

Unigolyn

3.7 Addysgu a Dysgu

Amlygodd ymatebwyr effaith gadarnhaol a negyddol bosibl y cynigion ar addysgu a dysgu hefyd. Roedd y themâu hyn yn adlewyrchu rhai o safbwyntiau a phersbectifau'r gymuned addysgol am ddeunydd cyfarwyddyd ehangach *Cwricwlwm i Gymru 2022*. Mae ymatebwyr, er enghraifft, yn barnu bod gan natur y cwricwlwm – gyda'r pwyslais ar ddysgu trawsgwricwlaidd – y potensial i sicrhau bod y pwnc a'r addysgu yn fwy perthnasol ac apelgar:

Mae Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr (REC) yn gefnogol iawn o'r gofyniad bod pob dysgwr yn cael gwersi AG yn y cwricwlwm newydd (er nad ydym o'r farn mai nawr yw'r amser i waredu hawl rhieni i dynnu eu plant allan o AG...). Mae AG yn rhan hanfodol o gwricwlwm eang a chytbwys ac mae'n rhan bwysig o baratoi pob disgybl yng Nghymru ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau y byddant yn eu cael yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae REC yn nodi'r cynlluniau i gynnwys AG o fewn Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau ac y bydd fframwaith AG ar wahân o fewn yr MDPH hwn. Credwn bod manteision posibl i'r cam o integreiddio AG yn agosach yn y cwricwlwm ehangach, ond bod risgiau hefyd. Er mwyn i'r cam o integreiddio AG o fewn MDPH y Dyniaethau fod yn llwyddiannus, credwn y bydd hi'n hanfodol bod camau clir yn cael eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r fframwaith AG ac na chaiff cyfraniad arbennig AG ei gollu.

Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch y sialensiau o gyflwyno AG ac ACRh fel yr amlinellwyd yn y cynigion. Yn yr un modd â'r ymgynghoriad blaenorol ynghylch ACRh a'r ymgynghoriad ehangach am ganllawiau *Cwricwlwm i Gymru 2022*, roedd rhai wedi mynegi pryderon am effaith bosibl gweithredu AG ac ACRh ar lwythi gwaith ymarferwyr, gan

gynnwys ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad. At hynny, teimlwyd bod sialensiau ynghylch addysgu AG ac ACRh mewn ffordd effeithiol, yn ogystal â hyrwyddo dysgu trawsgwricwlaidd:

Nid oes gan nifer o athrawon hyder yn y meysydd hyn, fodd bynnag, felly bydd angen cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus, yn enwedig ynghylch delio â sensitifrwydd a gwahaniaethau barn.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Mynegwyd pryderon hefyd am yr angen i sicrhau cydbwysedd a didueddrwydd wrth addysgu AG. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig y cyflwynir byd-olygon a chrefyddau i bobl ifanc mewn ffordd gytbwys a sensitif:

Y neges hanfodol ar gyfer yr addysgu hwn yw na ddylid gweld unrhyw fath o drwytho. Ni ddylai hyn olygu na ddylid gofyn i gynrychiolwyr ffydd amrywiol siarad â dosbarthiadau am eu crefydd a'u credoau, ond dylai hyn gynnwys pobl o fwy nag un crefydd a'r rhai heb greddoau crefyddol.

Rhiant/Gofalwr

4 Gwybodaeth, Arweiniad a Chymorth

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa gymorth, gwybodaeth a chanllawiau y bydd eu hangen pe bai'r dull yn y cynigion yn cael ei fabwysiadu. Roedd hyn yn ceisio archwilio'r camau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru a'r gymuned addysgol eu cymryd i roi sylw i unrhyw bryderon a oedd gan yr ymatebwyr.

4.1 Egluro Cynnwys yr Addysgu

Roedd pwysigrwydd egluro a chyfathrebu'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu o fewn AG, ac ACRh yn arbennig, yn thema allweddol a fynegwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn gefnogol o'r cynigion ar y cyfan a'r rhai a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan. Pe bai'r cynigion yn cael eu cyflwyno, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai hi'n bwysig sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn o gynnwys yr hyn a addysgir a phryd y byddai'r gwersi hynny yn digwydd:

Os bydd fy mhlant yn dysgu rhywbeth yn yr ysgol, mae angen i mi gael gwybod yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut y gallaf helpu i'w cynorthwyo ymhellach. Byddai adnoddau ar-lein fel taflenni ffeithiau yn helpu.

Rhiant/Gofalwr

Byddai angen i rieni gael eu hysbysu'n llawn o'r elfennau a sut y byddent yn cael eu haddysgu er mwyn lleddfu pryderon y gallai cynnwys herio eu gwerthoedd neu eu credoau neu y byddai'n amhriodol i oedran y plentyn.

Ysgol, Athro neu Lywodraethwr

At hynny, awgrymwyd mewn ymatebion y gallai hysbysu rhieni yn llawn o gynnwys gwersi roi sylw i bryderon sydd gan rieni efallai ynghylch priodoldeb yr hyn a addysgir. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn ystod sgysiau gyda rhieni a gofalwyr mewn grwpiau ffocws. Pan oedd rhieni wedi mynegi pryderon, ar ôl iddynt gael eglurhad gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu efallai, roedd eu gwrthwynebiad i'r cynigion yn tueddu i wanhau. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i bryderon ynghylch priodoldeb y ddarpariaeth i oedran y plant dan sylw, ac yn benodol, y safbwynt y byddai ACRh yn cael ei gyflwyno yn unffurf i blant 3 oed neu'n hŷn:

Dylai rhieni fod yn ymwybodol o'r hyn y mae'r gwersi yn ei gynnwys fel y gallant deimlo'n gyffyrddus a deall ei fod yn addas i oedran y plant dan sylw.

Arall

Credaf bod rhai cymunedau wedi camddeall yr hyn y mae'r elfen hon o'r cwricwlwm yn ei gynnwys mewn gwirionedd. Rydw i'n Fwslim a cheir cryn ddryswch a chodi bwganod yn y gymuned. Credaf y dylid cynnwys cysylltiadau agosach ac addysg mewn mosgiau lleol.

Rhiant/Gofalwr

Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig ymgynghori gydag arbenigwyr am ddeunyddiau a chynnwys gwersi, y dylent fod yn seiliedig ar ffeithiau ac na ddylai arfer effeithiol a thystiolaeth wyddonol ddylanwadu arnynt. Dywedodd nifer ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o'r wybodaeth hon cyn addysgu gwersi ACRh er mwyn sicrhau bod rhieni yn barod i ateb cwestiynau y gallai eu plentyn eu gofyn, ac er mwyn cynorthwyo dysgu eu plentyn yn y cartref.

4.2 Cyfleoedd i gael Deialog

Law yn llaw â rhagor o wybodaeth, amlygodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd creu cyfleoedd i rieni a gofalwyr drafod gydag athrawon ac arweinwyr ysgol unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt am y ddarpariaeth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai mabwysiadu'r cynigion hyn beryglu'r berthynas rhwng ysgolion, rhieni a gofalwyr. Trwy sicrhau deialog agored rhwng rhieni a'r ysgol, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai hyn helpu i leddfu pryderon mewn perthynas ag addysgu AG ac ACRh:

Mae gennym enghraifft o ysgolion mewn rhai rhannau o Loegr yn gweld y berthynas rhyngddynt nhw a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn dioddef yn ddifrifol ac yn chwalu.

Ysgol, Athro neu Lywodraethwr

Byddai'n bwysig bod yn glir gyda rhieni, yn enwedig y rhai o ddiwylliannau mwy caeedig, am y deunydd addas i'r oedran a gaiff ei gynnwys. Diben hyn fyddai ceisio osgoi'r problemau a welwyd mewn nifer o ysgolion yn Birmingham, er enghraifft.

Unigolyn

Yn y 50 ysgol Gatholig yn Archesgobaeth Caerdydd, nid oes unrhyw rieni yn tynnu eu plant allan o wersi Addysg Grefyddol neu ACRh ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hynny oherwydd cyfathrebu clir, ac yn aml, sgysiau unigol pwrpasol rhwng penaethiaid neu staff eraill yr ysgol a rhieni, fel bod gan y teuluoedd ddealltwriaeth glir iawn o'r addysgu a'r profiadau a gynigir i'w plant yn ystod y sesiynau hyn. Mae'n egwyddor sylfaenol mewn addysg Gatholig mai rhieni yw prif addysgwyr eu plant, a bod ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn cynorthwyo rhieni gyda'u rôl. Byddai gwaredu'r hawl hon sydd gan rieni i dynnu eu plant allan o wersi AG ac ACRh yn tansellio'r ymddiriedaeth a sefydlwyd gyda rhieni.

Sefydliad

Amlygodd nifer o ymatebwyr arfer effeithiol presennol wrth gyfathrebu gyda a chynnwys rhieni a gofalwyr yn addysg eu plant:

Mae traddodiad cryf wedi bod erioed o gydweithio'n agos gyda rhieni (a'r gymuned) i ddarparu arfer rhagorol.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

4.3 Cymorth Bugeiliol Ychwanegol

Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn awgrymu bod angen cynnig cymorth bugeiliol ychwanegol i blant a phobl ifanc efallai er mwyn eu helpu i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu faterion y maent yn eu hwynebu mewn perthynas ag AG ac ACRh. Trwy waredu'r hawl i dynnu plant allan, awgrymodd rhai ymatebwyr y bydd cynnydd yn nifer y myfyrwyr y bydd angen iddynt siarad am a thrafod materion y gallent fod wedi codi yn ystod gwersi ACRh, ac roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig cael strwythurau cymorth yn eu lle er mwyn helpu pobl ifanc gydag unrhyw bryderon a allai godi:

Dylai fod rhywle i'r disgyblion fynd pan fydd ganddynt gwestiynau pellach am y materion a drafodwyd, heb iddynt orfod ofni y bydd rhywun yn darganfod yr hyn yr oedd y disgyblion yn dymuno ei drafod.

Anhysbys

Mae angen i systemau cyfeillio mewn ysgolion, cymorth gan gymheiriaid, arweinwyr diogelu a nyrsys ysgol fod ar gael i roi unrhyw gyngor neu gymorth angenrheidiol mewn ysgolion, ynghyd â chymau er mwyn cyfeirio at sefydliadau cenedlaethol, e.e. Childline, NSPCC...

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

4.4 Cynorthwyo Athrawon

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod gan y cynigion oblygiadau i athrawon ac ysgolion. Gwelwyd cydnabyddiaeth eang o'r sialensiau wrth ddarparu addysgu effeithiol, sensitif ac apelgar ar draws AG ac ACRh. O'r persbectifau hyn, byddai gofyn i athrawon gael amrediad o gymorth, gan gynnwys arweiniad a hyfforddiant:

Byddai angen i athrawon wybod sut i ddelio â chwestiynau anodd hefyd, a hyfforddiant am y derminoleg gywir i'w defnyddio, a sut i helpu unrhyw blentyn y mae'n ymddangos eu bod yn cael anhawster a/neu broblemau (megis cydnabod perthynas nad yw'n un iach yn y cartref) gyda'r wybodaeth. Efallai y byddai o ddefnydd darparu gwybodaeth i'r holl ddisgyblion am yr help allanol y gallant gysylltu ag ef yn ddiogel (e.e. Childline), [rhywbeth] a fyddai ar gael yn yr ysgol yn hytrach na chael ei anfon gartref gyda nhw.

Rhiant/Gofalwr

Thema arall a oedd yn deillio o'r ymatebion oedd pwysigrwydd cysondeb wrth addysgu o fewn ac ar draws ysgolion. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig pennu fframwaith neu faes llafur clir sy'n amlygu'r cynnwys sylweddol a thôn y ddarpariaeth. Dadleuwyd y byddai sefyllfa lle y byddai gan ysgolion ganllawiau diamwys mewn perthynas â'r cwricwla, yn lleihau'r amrywiadau rhwng ysgolion o ran beth a sut yr oedd AG ac ACRh yn cael eu haddysgu. Heb ganllawiau clir o'r fath, gallai ysgolion ddehongli cynnwys cwricwlaidd mewn ffordd wahanol, gan ddarparu profiadau gwahanol iawn o ysgol i ysgol. Daw cysondeb o'r fath mewn addysgu ar draws ysgolion yn bwysicach fyth pan waredir hawl rhieni i dynnu plant allan, oherwydd y gallai rhieni, i bob pwrpas, fod yn colli'r hawl i dynnu plant allan o wahanol gwricwla.

Dadleuwyd y byddai'r canllawiau clir yn rhoi sylw hefyd i bryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch athrawon yn hyrwyddo'u safbwynt eu hunain wrth gyflwyno neu ysgolion yn hyrwyddo agenda benodol ar draul un arall. Awgrymodd rhai y byddai cael fframwaith clir ynghylch cynnwys cwricwla AG ac ACRh yn lleihau'r cwmpas i ysgolion addysgu pynciau penodol mewn ffordd y gellid ystyried ei bod yn hyrwyddo un safbwynt ar draul un arall neu bod ysgolion yn osgoi addysgu pynciau penodol:

Byddai angen eglurder i'r staff fel eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ffordd y dylid addysgu pob elfen er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw safbwyntiau staff eu cyfleu.

Ysgol, Athro neu Lywodraethwr

Arweiniad clir am gynnwys y cwricwlwm a sut y dylid ei addysgu, er mwyn osgoi gwanhau a'r potensial o osgoi'r canlyniad bwriadedig.

Rhiant/Gofalwr

Gallai mabwysiadu fframwaith clir roi sylw i rai o'r pryderon a fynegwyd ymhlith yr ymatebion ynghylch pa mor briodol y byddai'r cynnwys ACRh i blant, yn enwedig yn yr ystod oedran cynradd. At hynny, awgrymodd ysgolion ac athrawon ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu mewn ffordd effeithiol gyda rhieni ynghylch gweithredu'r cynigion, er mwyn dargyfeirio adweithiau negyddol i ffwrdd o ysgolion unigol. Roedd un ysgol sy'n cynnwys nifer sylweddol o ddysgwyr o'r gymuned Fwslimaidd, er enghraifft, wedi mynegi pryder y gallai'r cynigion gael effaith sylweddol ar y perthnasoedd rhwng athrawon a rhieni a gofalwyr:

Oherwydd y ffaith ei bod bron yn sicr y bydd nifer sylweddol o rieni yn gwrthwynebu, ceir posibilrwydd y bydd hyn yn arwain at amhariad a diffyg cydymffurfiaeth. Byddai hyn yn rhoi baich annheg ar y Tîm Arwain Uwch a'r staff yn gyffredinol mewn perthynas â'r gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Byddai hyn yn rhoi straen go iawn ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r rhiant.

Ysgol, Athro neu Lywodraethwr

Dadleuwyd y byddai sicrhau bod rhieni yn gwybod bod addysgu AG ac ACRh yn rhywbeth statudol, ynghyd â gwaredu'r hawl i rieni optio allan, ac nid yn benderfyniad a wneir gan yr ysgol unigol, yn gwaredu'r potensial o weld gwrthdaro yn codi rhwng ysgolion a rhieni a gofalwyr:

O ran ACRh, byddai angen i'r cwricwlwm fod yn rhagnodol iawn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws ysgolion, gan ddarparu canllawiau a therfynau clir yn nodi'r cynnwys i'w addysgu o fewn pob grŵp blwyddyn. Byddai angen i'r gwersi hyn fod yn statudol er mwyn i rieni beidio bod dan yr argraff mai penderfyniad a wneir gan yr ysgol yw hyn.

Ysgol, Athro neu Lywodraethwr

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cynhwysfawr am y mater, sy'n amlinellu'r cynnwys a addysgir, law yn llaw â disgygliadau clir am yr adeg y dylid rhoi sylw i bob pwnc.

Unigolyn

Byddai canllawiau cynhwysfawr, mewn statud, yn nodi'n glir yr hyn a gaiff ei addysgu, felly ni fyddai unrhyw gamargraff, camddealltwriaeth neu anhawster am yr hyn a addysgir i blant.

Ysgol, Rhiant neu Lywodraethwr

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod ansawdd addysgu AG ac ACRh yn cael ei fonitro yn barhaus er mwyn sicrhau bod addysgu yn cyd-fynd yn llawn gyda'r cynigion a bod dull cytbwys ar gyfer addysgu'r pynciau.

Ar ben hynny, cyfeiriodd ymatebwyr at y ffaith bod addysgu ACRh yn fater sensitif ac y dylai hyfforddiant penodol a chanllawiau clir fod ar gael ynghylch sut i addysgu'r pwnc. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ymarferwyr a staff addysgu yn darparu gwersi mewn ffordd sensitif a gofalus. Mae hyn yn cynnwys dangos ymwybyddiaeth o a sensitifrwydd tuag at greddau diwylliannol a chrefyddol wrth addysgu ACRh. Awgrymodd ymatebwyr bod angen cael dull strwythuredig ynghylch addysgu ACRh er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i'r oedran dan sylw a bod athrawon yn dilyn rhaglen astudio y cytunwyd arni, a gynorthwyr gan adnoddau o ansawdd uchel. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai athrawon arbenigol addysgu AG ac ACRh er mwyn sicrhau addysgu o ansawdd uchel a chysondeb o ran yr addysgu.

Er mwyn rhoi sylw i hyn, awgrymodd ymatebwyr y byddai angen i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) gyflawni rôl pwysig. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i athrawon wrth iddynt ddarparu cynnwys ar draws AG ac ACRh. Er bod ymatebwyr wedi amlygu'r angen am hyfforddiant i athrawon, nid oedd fawr iawn o ymatebwyr wedi ymhelaethu am yr hyfforddiant a'r cymorth penodol y byddai ei angen:

Rhaid iddynt deimlo'n gyffyrddus wrth gyflwyno'r deunydd pwnc mewn ffordd niwtral, heb farnu, sy'n pwysleisio derbyniad/goddefgarwch, bod saith biliwn o bobl ar y blaned ac y byddai'n ddiflas ac yn rhyfedd iawn pe baem i gyd yr un fath.

Unigolyn

4.5 Gwrthwynebiad i'r Cynigion

Roedd ymatebwyr yr oeddent yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan yn aml yn manteisio ar y cyfle a roddwyd gan y cwestiwn hwn i ategu eu gwrthwynebiadau. O'r persbectif hwn, ni fyddai unrhyw swm o gymorth, gwybodaeth a chanllawiau yn lleddfu eu pryderon. Roedd nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi ategu'r gred bod gwaredu hawl rhieni i dynnu eu plentyn allan o wersi AG ac ACRh yn gam anghywir ac nad oeddent yn cefnogi'r cynigion. Yn ogystal, cyfeiriodd ymatebion at y gred na fyddai unrhyw swm o ganllawiau neu wybodaeth yn cywiro'r cynigion:

Ni allaf feddwl am unrhyw gymorth, gwybodaeth na chanllawiau y byddai modd eu rhoi ac y gallent oresgyn gwrthwynebiadau sylfaenol rhieni nad ydynt yn dymuno gweld y pynciau hyn yn cael eu haddysgu i'w plant.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Nid wyf yn cytuno gyda'r awgrym hwn, felly nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu i'r adran hon.

Unigolyn

Cafwyd ymatebion hefyd yr oeddent yn anghytuno gyda'r cynigion, ond er hyn, roeddent wedi rhoi ateb yn nodi pa ganllawiau a gwybodaeth y byddai eu hangen. Yn aml, roedd datganiad yn cyd-fynd â hyn fel cafeat, a oedd yn amlinellu nad ydynt yn cytuno gyda'r dull arfaethedig, yn enwedig y cam o waredu hawl rhieni i optio allan. O blith y mathau hyn o ymatebion, gwelwyd nifer o themâu cyffredin y cyfeiriwyd atynt er mwyn amddiffyn hawl rhieni i dynnu eu plant allan; roedd y rhain yn cyd-fynd yn fras â'r dadleuon hynny yn y cwestiwn blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys y byddai gwaredu hawl rhieni i dynnu eu plant allan o wersi AG ac ACRh yn mynd yn groes i safbwyntiau crefyddol rhieni a theuluoedd; y byddai'r cynigion yn osgoi hawliau'r rhiant i ddewis pa grefydd y byddai eu plentyn yn ei dilyn; y gred bod addysgu ACRh yn amhriodol i blant oedran cynradd; mai cyfrifoldeb rhieni yw addysgu eu plant am faterion mewn perthynas ag ACRh; ac anghytundeb gyda'r cynigion i addysgu plant am faterion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, *Queer*, Rhyngrywiol a Mwy (LGBTQI+) ac ynghylch perthnasoedd cyplau o'r unrhyw:

Dylai fod gan ysgolion unigol yr hawl i benderfynu sut i ddarparu'r addysgu hwn. Dylai fod yn hollol dderbyniol i ysgolion Catholig a Christnogol addysgu ACRh o safbwynt Beiblaidd yn unig.

Unigolyn

Dylai rhieni gael gwybodaeth ymhell cyn i wersi ddigwydd a dylent gael cwricwlwm sampl. Byddai'n beth da hefyd caniatáu i rieni eistedd mewn dosbarthiadau a chael cyfarfodydd ymgynghori gyda staff. Ar ôl hyn, dylent [barhau i] gael yr hawl i dynnu eu plentyn allan yn ôl yr angen.

Unigolyn

Mae'n amheus a allech chi atal neu ddiogelu plant rhag gwrthdaro gyda'u rhieni pan fydd yr addysg y maent yn ei chael yn yr ysgol yn mynd yn groes i werthoedd rhieni yn uniongyrchol.

Arall

Yn fy marn i, ni fyddai unrhyw wybodaeth na sicrwydd yn ddigon pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, oherwydd y byddai'n iawn bod rhieni yn amau bod eu hawliau'n cael eu sathru er mwyn gallu trwytho eu plant.

Aelod arall o'r teulu

Yn ogystal, cafwyd rhai ymatebion a oedd yn awgrymu, pe bai'r hawl i dynnu plant allan yn cael ei gwaredu, y byddai hyn yn arwain at rieni yn tynnu eu plentyn allan o'r ysgol. Byddai hyn er mwyn dewis addysgu eu plentyn yn y cartref neu er mwyn cadw eu plentyn gartref pan fyddai'r gwersi hyn yn cael eu haddysgu:

Os bydd y dull hwn yn mynd yn ei flaen, byddaf yn tynnu fy mhlentyn i allan, felly nid oes angen unrhyw sylw ar gyfer y cwestiwn hwn.

Rhiant/Gofalwr

5 Amseriad y Diwygiadau

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent y teimlo y dylid cyflwyno'r cynigion ar draws pob grŵp oedran o fis Medi 2022. Cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion uwchradd o flwyddyn 7. Diben hyn yw sicrhau dilyniant o ran y dull ar gyfer dysgwyr unigol ar adeg allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a gyflwynir y cam o wahardd y gallu i optio allan ar gyfer pob dysgwr yn 2022, neu a chaiff hynny ei wneud yn raddol wrth gyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd.

5.1 Cyflwyno'n Raddol

Roedd y rhai a oedd yn cynnig y farn y dylid cyflwyno hyn yn raddol yn unol â'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd, yn tueddu i wneud hynny oherwydd nad oeddent yn dymuno gweld y cynigion yn cael eu cyflwyno o gwbl. O'r persbectif hwn, roedd gwaredu'r hawl i dynnu plant allan yn annerbyniol am resymau crefyddol, diwylliannol neu foesol. Roedd ymatebwyr yn aml yn teimlo bod gwaredu'r hawl i dynnu plant allan yn mynd yn groes i'w hawliau fel rhieni:

Gan eich bod yn cyfyngu ar ryddid crefyddol teuluoedd, ni ddylai hyn ddigwydd mewn cenedl ddemocrataidd. Mae pobl wedi aberthu eu bywyd dros ryddid i lefaru a mynegi eu credoau crefyddol. Fel yr wyf i wedi dweud yn flaenorol, dylid addysgu plant i fod yn garedig i bawb, ond ni ddylid eu trwytho mewn credoau sy'n mynd yn groes i'r rhai y mae'r teulu yn eu harddel.

Teulu Arall

Maes a oedd yn peri pryder i'r rhai sy'n gwrthwynebu i'r cam o waredu'r hawl tynnu allan i bob myfyriwr yn 2022 oedd yr effeithiau negyddol y gallai'r cynnig hwn eu cael, gan gynnwys cynnydd mewn absenoldeb myfyrwyr, y berthynas rhwng yr ysgol a'r teulu yn chwalu, ac effaith negyddol ar addysg myfyrwyr:

Os gweithredir mecanwaith cyfreithiol i geisio gorfodi plant i fynychu gwersi penodol yn erbyn dymuniadau'r rhieni, bydd rhieni yn darganfod ffyrdd eraill megis ffugio salwch neu ffurfiau absenoldeb eraill, y byddant yn cael effaith niweidiol ar addysg y plentyn ym mhob maes cwricwlwm, ac a fydd yn dinistrio'r ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol mewn perthnasoedd rhwng rhieni ac ysgolion. Yn yr achosion mwyaf eithafol, gallai arwain at afreolaeth ddinesig, megis yr hyn a welwyd yn Birmingham yn ddiweddar, neu gallai ddieithrio cymunedau cyfan hyd yn oed.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Roedd rhai ymatebwyr wedi cynnig sialensiau ymarferol wrth weithredu'r cynigion fel rheswm dros gyflwyno'r cynigion yn raddol. Thema gyffredin a oedd yn llywio'r persbectif hwn oedd yr angen i sicrhau bod cyrsiau AG ac ACRh yn cael eu darparu'n llwyddiannus a bod digon o amser ar gael i ymgysylltu a thrafod y newidiadau gyda rhieni, er mwyn sicrhau dealltwriaeth a gwrthddadlau gwybodaeth anghywir:

Credwn bod angen cyflwyno newid ar y lefel hon dros gyfnod hwy er mwyn caniatáu i'r cymunedau amrywiol sy'n gysylltiedig i ddeall yn well y rhesymeg dros gyflwyno'r cynigion. Rydym yn llwyr dderbyn yr egwyddor y seiliwyd y cynigion arni, ond teimlwn y byddai'n cymryd mwy na dwy flynedd i sicrhau derbyniad a dealltwriaeth gyffredin yn y gymuned.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Roedd ymatebwyr ansicr eraill wedi trafod yr amser sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno cwricwlwm newydd a'r angen am amser digonol ar gyfer canllawiau llywodraethol, datblygiad proffesiynol a sefydlu prosesau monitro ac adolygu effeithiol:

Mae angen amser i ymwreiddio unrhyw gynnig newydd. Gallai canllawiau anstatudol, fodd bynnag, gynnig deunyddiau i ysgolion a fyddai'n annog rhieni y gallent fod yn ystyried tynnu eu plentyn allan, i ailystyried.

Unigolyn

Yn y cyfamser, amlygodd eraill yr angen am amser i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gefnogol o'r ddarpariaeth, egluro'r cynnwys a lleddfu pryderon rhieni:

Gan bod y newidiadau dan y cwricwlwm newydd yn debygol o fod yn ffactor pwysig wrth sicrhau bod rhieni yn teimlo'n hyderus y bydd cynnwys y gwersi AG ac ACRh yn wahanol ac yn ehangach, mae cyfyngu ar eu rhyddid i ddewis pan nas gwneir unrhyw newid i gynnwys y cwricwlwm, yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol, gan arwain at fwy o wrthwynebiad.

Arall

5.2 Cyflwyno yn 2022

Roedd y rhai a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig y bydd pob myfyriwr yn gallu manteisio ar y cwricwlwm cyfan ym mis Medi 2022, wedi amlygu'r manteision i ysgolion, dysgwyr a chymdeithas wrth gyflwyno hyn ar yr un pryd. Mae'r manteision yn cynnwys cysondeb i ysgolion a llai o amhariad a dryswch a achosir wrth i rai disgyblion ddilyn y cwricwlwm, ond nid oedd eraill yn cytuno:

Er mwyn sicrhau dull safonol ac osgoi dryswch yn y proffesiwn dysgu a gyda rhieni. Fel arall, mewn ysgolion cynradd, byddai rhai rhieni yn gallu tynnu eu plant allan ac ni fyddai gan rieni eraill yr hawl i dynnu eu plant allan. Gallai hyn ddigwydd o fewn teuluoedd hefyd, gan ddibynnu ar oedrannau eu plant.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Roedd y rhai a oedd yn awgrymu y dylai dysgwyr gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan o fis Medi 2022 yn aml yn amlygu'r effeithiau cadarnhaol o ran y ffaith y byddai cymdeithas yn fwy goddefgar wrth i bob myfyriwr gael gwell dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau a chredoau:

Pan fyddwn yn caniatáu i blant gael gwybod am un set o gredoau neu ffordd o feddwl, byddwn yn peryglu niweidio'r dealltwriaeth gyffredin honno a chynyddu

rhagfarn wrth i blant dyfu. Os bydd plant yn cael gwybod am amrediad o gredoau a hunaniaethau mewn ffordd lle y byddant yn gweld gwerth yr hunaniaethau a'r credoau hynny i'r sawl sy'n eu dilyn, byddant yn derbyn pobl o wahanol ffydd, pobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, pobl sydd â gwahanol hoffterau rhywiol a hunaniaethau rhyw ac ati, lawer yn fwy. Mae caniatáu rhieni i gadw plant i ffwrdd o syniadau penodol yn niweidio'r plant ac mae'n ddyletswydd ar y system addysg i addysgu, nid arddel rhagfarnau, ymwybodol neu anymwybodol, eu rhieni.

Unigolyn

Gan adlewyrchu'r ymatebion i gwestiynau eraill, amlygodd nifer o ymatebwyr yr effaith gadarnhaol y byddai cyflwyno'r cwricwlwm ym mis Medi 2022 yn ei chael ar yr holl blant a phobl ifanc o ran iechyd a lles corfforol a meddyliol. Nodwyd yr angen i bob dysgwr allu manteisio ar wybodaeth fanwl a diduedd gan rai ymatebwyr. Nododd eraill y byddai'r cwricwlwm yn caniatáu i fyfyrwyr allu gwneud dewisiadau mwy gwybodus, gan wella diogelu a hyrwyddo perthnasoedd iachach, gan leihau unigrwydd a bwlio trwy gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr:

Bydd plant yn dysgu am y pethau hyn, os nad gan athrawon neu aelodau teuluol, yna o'u ffynonellau eu hunain (megis ffrindiau). Efallai y byddant yn dysgu y ffordd galed hefyd. Mae'n llawer gwell sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gywir a'u hannog i deimlo eu bod yn gallu trafod pethau o'r fath heb ofni teimlo'n swil neu ddioddef canlyniadau negyddol. Gall addysgu plant sut i adnabod perthynas iach a pherthynas nad yw'n un iach, eu hachub mewn cymaint o ffyrdd – gan eu helpu i ffurfio agweddau iach, osgoi perthnasoedd gwenwynol, ac efallai osgoi bod yn ffynhonnell perthynas wenwynol; mae hyn hefyd yn berthnasol i dderbyn y rhai o wahanol grefyddau. Bydd plant yn tyfu i fod yn oedolion a byddant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain. Onid yw hi'n well rhoi cymaint o wybodaeth ag y bo modd iddynt er mwyn eu galluogi i wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain. Yn ogystal, gallai peidio caniatáu optio allan fwrw goleuni ar achosion o berthnasoedd nad ydynt yn rhai iach, neu hyd yn oed camdriniaeth, yn y cartref. I'r plant hyn, mae'n bwysig eu bod yn dysgu nad yw eu hamgylchiadau nhw yn normal a bod modd gwneud rhywbeth. Nid rhywbeth addysgiadol yn unig yw addysgu ACRh i blant – mae'n fesur diogelu.

Rhiant/Gofalwr

At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai cynnal yr hawl i dynnu allan am gyfnod hwy o AG ac ACRh i rai yn dibrisio'r pynciau, gan gyfleu'r neges anghywir i fyfyrwyr a rhieni nad yw astudio'r meysydd hyn mor bwysig ag astudio pynciau eraill. A hefyd, trwy oedi'r hawl i dynnu plant allan, nodwyd bod hyn yn annog cred ymhlith rhieni nad yw'r pynciau hyn o fudd i fyfyrwyr neu eu bod yn ddadleuol:

Nid oes gan rieni hawl i dynnu disgyblion allan o unrhyw wers arall. Dibrisio'r pwnc drwy roi'r cynnig yma i rieni. Nid pwrpas Addysg Grefyddol yw gwneud disgyblion yn grefyddol, ond yn hytrach rhoi'r sgiliau iddynt allu meddwl dros eu hunain.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

6 Ailenwi Addysg Grefyddol

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu safbwyntiau ynghylch yr enw priodol i AG hefyd, er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir yn y cwricwlwm newydd.

6.1 Pwysigrwydd Dilyniant

Am amrywiaeth o resymau, argymhellodd nifer o ymatebwyr y dylid cadw'r enw Addysg Grefyddol. Roeddent o'r farn nad oes unrhyw broblem gyda'r enw, gan ei fod yn ymwneud ag addysgu crefydd yn benodol, a bod gwersi eraill yn addysgu gwerthoedd a moeseg. Awgrymodd eraill y byddai newid yr enw yn rhoi llai o amser i addysgu crefydd, a Christnogaeth yn benodol. Byddai hyn yn arwain at lai o ddealltwriaeth o ac o ymgysylltu gyda chrefydd, ac roedd ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn niweidiol. Roedd rhai ymatebwyr yr oedd ganddynt y farn hon yn nodi mai Cristnogaeth yw'r brif grefydd yng Nghymru; felly, mae'n rhan o dreftadaeth a diwylliant Cymru, a dylid rhoi ffocws sylweddol iddo wrth drafod crefydd:

...bydd cynnig newid enw o Addysg Grefyddol i Grefyddau a Byd-olygon neu enwau eraill, yn golygu y bydd y cwricwlwm yn gwanhau hunaniaeth Cymru fel gwlad sy'n arddel gwerthoedd Cristnogol... Mae cynnwys mwy o fyd-olygon yn lleihau'r amser a gaiff ei dreulio yn dysgu dysgeidiaeth foesol a dderbynnir.

Sefydliad

Yn fy marn i, dylai aros yr un peth, ond waeth pa enw a ddewisir, mae'n bwysig y dylai plant gael safbwynt cyflawn am grefyddau, gan gynnwys dealltwriaeth o anffyddiaeth. Mae'n bwysig na chaiff gwerthoedd crefyddol traddodiadol eu dibrisio er mwyn ffafrio safbwynt mwy plwraliaethol.

Unigolyn

6.2 Ailenwi AG

Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethon ni ofyn i ymatebwyr beth fyddai'r enw priodol ar gyfer 'addysg grefyddol' er mwyn adlewyrchu cwmpas ehangach y cwricwlwm newydd. Dadansoddwyd yr ymatebion i gwestiwn 4 yn yr ymgynghoriad o ran a ddylid ailenwi'r pwnc fel a ganlyn:

- roedd 38% (606) o'r ymatebwyr yn nodi'n glir nad oeddent eisiau newid enw AG;
- roedd 55% (875) yn awgrymu y dylid ailenwi AG;
- nid oedd 7% (103) yn cynnig unrhyw farn o ran ailenwi.

O'r 875 o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid newid yr enw, roedd poblogrwydd pob un o'r enwau a awgrymwyd fel a ganlyn:

- yr ymateb mwyaf cyffredin oedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a ddewiswyd gan 377 o ymatebwyr, neu 43% o'r rhai a oedd yn cytuno y dylid newid yr enw;

- roedd crefyddau a byd-olygon yn cael ei gefnogi gan gyfanswm o 231 o ymatebwyr neu 26% o'r rhai a oedd yn cytuno y dylid newid yr enw;
- cynigiodd 267 o ymatebwyr enwau posibl eraill. Gyda'i gilydd, cafwyd 151 o awgrymiadau unigryw, neu 31% o'r rhai a oedd yn cytuno y dylid newid yr enw.

O blith y rhai yr oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig ailenwi AG, roedd ymatebwyr wedi cynnig amrediad amrywiol o awgrymiadau a chyfuniadau. Roedd y rhain yn cynnwys termau megis 'athroniaeth', 'ysbrydolrwydd', 'ffydd', 'credoau' a 'Christnogaeth'. Y termau mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd atynt oedd 'moeseg' a 'byd-olygon'. Roedd y teimlad y dylid ailenwi AG yn Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn deimlad cyffredin ymhlith ymatebwyr.

Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y syniad bod addysgu moesau a moeseg yn bwysig ac y dylai teitl y pwnc adlewyrchu'r ffocws mwy ehangol. Yn ogystal, nododd nifer o ymatebwyr y byddai byd-olygon yn annog ymgysylltu gydag ystod ehangach o safbwyntiau a chredoau:

Mae'r term 'crefydd' ar ei ben ei hun yn awgrymu camdybiaethau a safbwyntiau hen ffasiwn am addysg. Mae 'byd-olygon' yn cynnwys banc diddiwedd o adnoddau a gwybodaeth; wrth ei gyplysu gyda chrefydd, gall gynnig canllaw.

Ymarferwr Addysgol

Mae'n esbonio'n glir bod hwn yn bwnc ar draws y byd a'u bod yn safbwyntiau pawb. Byddai hyn yn lleihau'r stigma. Byddai'n galluogi trafodaeth am safbwyntiau byd-eang y tu allan i grefydd hefyd.

Sefydliad

7 Goblygiadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr a fyddai'r cynigion yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg, gan gynnwys ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a'i thrin mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg. O'i gymharu â chwestiynau eraill, ar y cyfan, nid oedd ymatebwyr yn tueddu i gynnig safbwyntiau a phersbectifau am effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg.

7.1 Effaith ar y Defnydd o'r Iaith Gymraeg

O blith yr ymatebwyr a oedd wedi cynnig eu barn, roedd y mwyafrif yn teimlo na fyddai unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg pe bai'r hawl i dynnu plant allan yn cael ei gwaredu. Roedd nifer yn teimlo nad oedd cyswllt amlwg rhwng y dull arfaethedig a'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i dysgu:

Ni allaf weld y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Sefydliad neu Gorff Cynrychioliadol

Roedd rhai yn teimlo nad oeddent mewn sefyllfa i wneud sylwadau am y mater gan nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain:

Nid ydw i'n dymuno gwneud sylwadau am hyn, gan nad wyf yn siarad Cymraeg, felly gall y rhai sy'n siarad yr iaith ffurfio barn sydd lawer yn fwy gwybodus nag y gallwn i.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Roedd eraill yn teimlo y byddai'r newidiadau arfaethedig i AG ac ACRh yn cynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac y gallai gwersi dwyieithog feithrin mwy o ddealltwriaeth, gan ehangu terminoleg myfyrwyr.

Byddai plant yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gwersi hynny.

Rhiant/Gofalwr

I'r rhai a ymatebodd mewn ffordd gadarnhaol, gan gynnig mwy o fanylder, gwelwyd ffocws ar yr angen am ddatblygiad proffesiynol ac adnoddau Cymraeg o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad dysgu da ac y byddai'r cwricwlwm newydd yn llwyddiant:

Dylai pob ysgol fod yn sicrhau hyn eisoes ond gellid cynhyrchu rhagor o adnoddau mewn Cymraeg yn y meysydd dan sylw gan mai mewn Saesneg mae'r mwyafrif ar hyn o bryd.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

7.2 Yr Iaith Gymraeg ac Addysg

Roedd nifer o ymatebion a oedd yn dynodi effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr iaith Gymraeg yn gwneud pwyntiau ehangach yn bennaf mewn perthynas â'r ddadl ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn addysg. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr agwedd gadarnhaol ar y ffaith bod addysgu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion yn orfodol, er enghraifft, ac roeddent yn teimlo ei bod o fudd i ddysgwyr gael cyswllt gyda'r Gymraeg a'r Saesneg. Roedd yr ymatebion hyn fel arfer yn cyfeirio at y ffaith bod dysgu Cymraeg mewn ysgolion wedi arwain at weithgarwch parhaus i arddel treftadaeth, diwylliant a gwerthoedd Cymreig:

Rydw i'n gefnogol o hyrwyddo addysgu'r Gymraeg, gan ddiogelu rhan bwysig o ddiwylliant Cymru. Mae addysgu iaith arall yn gynnar wastad yn cynnig budd o ran datblygiad ymenyddol a diwylliannol.

Rhiant/Gofalwr

Mae'r Gymraeg yr un mor bwysig â'r Saesneg. Mae dysgu Cymraeg yn bwysig i'n teulu. Rydw i'n dod o Loegr a chredaf bod dysgu iaith a diwylliant y man lle'r ydych yn byw yn hynod o bwysig.

Ysgol, Athro, Llywodraethwr

Roedd thema gyffredin arall yn ymwneud â phwysigrwydd cynnig y dewis i rieni ym mha iaith yr addysgir eu plant. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod y dewis ar gael i rieni ddewis bod eu plant yn cael eu haddysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd rhai o'r farn na ddylai dysgu siarad Cymraeg fod yn rhywbeth gorfodol mewn ysgolion, ac y dylai fod yn ddewis i rieni:

Dylai pobl ddewis dysgu Cymraeg os ydynt yn dymuno, ond dylai fod modd iddynt optio allan hefyd os nad ydynt yn dymuno ei dysgu.

Rhiant/Gofalwr

Mae'n destun dewis unigol a dylai pawb gael yr hawl i ddewis.

Rhiant/Gofalwr

Ar y llaw arall, cafwyd ymatebion a oedd yn dadlau yn erbyn darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Fel arfer, roedd y dadleuon hyn yn cyfeirio at y ffaith bod Saesneg yn iaith a siaradir yn llawer ehangach ac a ddefnyddir yn helaeth ar draws y byd:

Mae'r Saesneg yn iaith ryngwladol. Hon yw'r brif iaith a ddefnyddir ym myd masnach, gwyddoniaeth a chyfathrebu cyffredinol ar draws y byd. Mae'n annhebygol y byddai'r un peth yn berthnasol i'r iaith Gymraeg.

Aelod Teuluol Arall

Saesneg yw iaith y byd. Iaith leiafrifol yw'r Gymraeg, ac nid oes fawr ddim o werth iddi y tu allan i Gymru.

Aelod Teuluol Arall

Er eu bod yn gefnogol o'r iaith Gymraeg, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol bod dewis iaith yn cael ei gynnal a bod y cwricwlwm newydd yn caniatáu i fyfyrwyr gyfathrebu a dysgu mewn iaith yr oeddent yn teimlo'n gyffyrddus ynddi:

Dylai addysg fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â dymuniad y rhieni a'r plentyn. Yn fy mhrofiad i, mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn iawn nes cyrraedd Safon Uwch, pan nad oes rhai papurau ar gael yn Gymraeg. Os ydym yn mynd i barhau i gynorthwyo ein plant a'r iaith Gymraeg, rhaid i'r holl addysg yng Nghymru fod yn ddwyieithog fel na fydd ein pobl ifanc mewn addysg bellach ac yn y gweithle dan anfantais.

Rhiant/Gofalwr

8 Casgliadau

Cynigiwyd ystod amrywiol o safbwyntiau a phersbectifau gan ymatebwyr am y cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys dadleuon ynghylch rôl ffydd mewn addysg, ac ymlaen i sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau'r plentyn a hawliau rhieni a gofalwyr. Yma, rydym yn ceisio rhoi crynodeb o rai o'r prif themâu sy'n deillio o'r dadansoddiad.

8.1 Meysydd lle y gwelir Consensws

Yr hyn sy'n cysylltu mwyafrif yr ymatebwyr yw'r gred ynghylch pwysigrwydd hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a moesol plant, yn ogystal â chynorthwyo eu lles ehangach. Roedd y rhai a oedd yn gefnogol o'r cynigion ar y cyfan a'r rhai a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion ar y cyfan yn unedig yn eu dymuniad i sicrhau na chaiff plant a phobl ifanc gyswllt gyda gwerthoedd, credoau neu syniadau y maent yn teimlo eu bod yn tansilio neu'n mynd yn groes i'w datblygiad a'u lles.

Lle y gwelir gwahaniaeth barn, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar:

- Bryderon ynghylch **priodoldeb a sensitifrwydd y ddarpariaeth**; neu
- Bwysigrwydd cael addysg **eang, cytbwys a gwybodus**.

O fewn y ddau safbwynt arbennig hwn, gwelwyd amrywiaeth sylweddol o ran y materion sylweddol a'r pwyslais o fewn yr ymatebion. Yn aml, roedd y safbwyntiau yn rhai cryf ac yn cael eu mynegi mewn ffordd gref, gan amlygu pwysigrwydd datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol neu foesol plant a phobl ifanc i nifer o ymatebwyr.

8.2 Sensitifrwydd a Phriodoldeb y Ddarpariaeth

Thema allweddol a oedd yn deillio o'r ymatebion oedd y rhai a oedd yn ceisio sicrhau bod y cynigion yn cynnal sensitifrwydd ddiwylliannol a chrefyddol o ran y ddarpariaeth, yn enwedig yn unol â dymuniadau a chredoau'r teulu. O'r persbectif hwn, roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo eu bod yn cyflawni rôl pwysig yn natblygiad cymdeithasol, moesol ac ysbrydol eu plant. Roedd rhai rhieni yn teimlo y gallai'r cynigion, a'r cyfle i optio allan o ddarpariaeth benodol, danseilio'r rôl hwn.

O'r persbectifau hyn, mae'n ymddangos bod ACRh wedi cael mwy o sylw gan yr ymatebwyr. Mae nifer yn tueddu i ganolbwyntio eu pryder ar y diffyg cysylltiad rhwng gwerthoedd rhieni a gofalwyr a'r ffocws tybiedig ar gynnwys a darpariaeth, yn enwedig ynghylch rhyw a pherthnasoedd. Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at briodoldeb y ddarpariaeth ACRh i oedrannau'r plant dan sylw. Roedd rhieni a gofalwyr a oedd yn cyfeirio at y mater hwn yn aml yn sôn am bryderon ynghylch lles, gan gynnwys rhywioli plant a phobl ifanc. O'r persbectif hwn, gallai ACRh waethygu'r pryderon hyn, yn hytrach na delio â nhw.

8.3 Addysg Eang a Chytbwys

Gwelwyd cysondeb bras hefyd o ran yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynigion ar y cyfan. Mae'r rhai sy'n cefnogi'r cynigion yn tueddu i ganolbwyntio eu rhesymeg ar bwysigrwydd dysgu am ACRh ar gyfer lles dysgwyr, yn ogystal ag archwiliad cytbwys a theg o ffydd mewn cymdeithas. Cynigiodd ymatebwyr ystod eang o fanteision posibl i blant, pobl ifanc, a chymdeithas yn ehangach, gan gynnwys hyrwyddo dealltwriaeth a goddefgarwch. At hynny, gwelwyd ffocws ar iechyd a lles plant yn cael ei wella trwy roi gwybodaeth well iddynt a lleihau arwahanrwydd a bwlio, yn ogystal â'u diogelu rhag ymddygiad rheibus ar-lein.

8.4 Sicrhau cydbwysedd rhwng Hawliau'r Plentyn a'r Rhiant

Roedd ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at hawliau plant neu rieni a gofalwyr wrth gyflwyno eu hachos. Maes allweddol a oedd yn peri pryder ymhlith rhieni a gofalwyr oedd y dybiaeth bod y cynigion yn erydu eu hawliau. O'r persbectif hwn, roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo fel pe bai ganddynt rôl sylfaenol i'w gyflawni yn natblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol eu plant. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion, a'r cyfle i optio allan o ddarpariaeth benodol yn arbennig, danseilio neu wanhau'r rôl hwn. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr yn cyfeirio at y ffaith bod hawliau'r plentyn i gael addysg gytbwys ac eang yn bwysig yn y ddadl ynghylch mynediad i'r cwricwlwm. O'r persbectifau hyn, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau rhieni a gofalwyr i bennu a siapio addysg eu plant, gyda hawliau'r plentyn i gael addysg.

8.5 Ymatebion Sensitif

Cafwyd nifer fach o ymatebion yr oeddent yn amlwg yn rhai homoffobig a thrawsffobig neu'n rhai homoffobig a thrawsffobig drwy awgrym. Roedd yr ymatebion hyn yn gwrthwynebu i'r cynigion ynghylch ACRh, a'r cam o gynnwys perthnasoedd LGBTQI+ yn benodol. At hynny, gwelwyd nifer fach o ymatebwyr y mae ganddynt ymagwedd ymynysol am AG. Mae'r ymatebwyr hyn yn credu mai eu crefydd nhw yw'r unig wir grefydd ac mai hon yw'r unig un y dylid addysgu amdani.

8.6 Dehongliadau Lluosog o'r Cynigion

Yr hyn sy'n glir o'r ymatebion yw bod sawl dealltwriaeth yn bodoli o fwriad a chynnwys sylweddol y cynigion. Mewn rhai achosion, ceir dehongliadau nad ydynt yn adlewyrchu ysbryd na bwriad y cynigion yn gywir efallai. Gwelwyd gwrthwynebiad arbennig i'r cam o addysgu ACRh i blant iau, er enghraifft. Gallai hyn fod yn deillio o'r dybiaeth y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd unffurf ar draws grwpiau oedran:

Pan fydd plant yn cyrraedd oedran penodol, er enghraifft addysg uwchradd, mae'n ddealladwy bod gan blant y gallu i feddwl drostynt eu hunain a gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Ond mae'n wirion bod y cwricwlwm yn cynnig y cyfle i blant cynradd o 4/5 oed i ddysgu am berthnasoedd ac addysg rhyw.

Rhiant/Gofalwr

I blant iau yn y Cyfnod Sylfaen, bydd ACRh yn cynnwys deunydd sy'n briodol i ddatblygiad y plant dan sylw. Pan fydd plant yn 5 oed, er enghraifft, byddant yn dysgu am berthnasoedd gyda rhieni, teulu a ffrindiau yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Ni fyddant yn archwilio materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhamantus.

Mae presenoldeb dehongliadau lluosog yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o nodau a ffocws y cynigion, a gwybodaeth amdanynt, yn isel. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod rhai ymatebwyr wedi ystyried gwybodaeth anghywir neu ddadleuon ehangach ac adroddiadau a welwyd yn y cyfryngau wrth ffurfio eu barn am y cynigion. Adlewyrchir hyn mewn rhai o'r lleisiau mwyaf beirniadol ar draws ymatebion sy'n gwrthwynebu i'r cynigion oherwydd eu bod wedi deall eu bod yn hyrwyddo ffyrdd o fyw cyfunrhywiol ac yn cwestiynu hunaniaeth rhyw biolegol wedi'u diffinio'n glir a heteronormadol.

8.7 Pwysigrwydd Gwybodaeth a Chyfathrebu

Gwelwyd y teimlad ymhlith ymatebwyr yr oeddent o blaid y cynigion ar y cyfan ac yr oeddent yn erbyn y cynigion ar y cyfan bod gwybodaeth a chyfathrebu yn allweddol. Awgrymwyd yn yr ymatebion y gallai hysbysu rhieni o gynnwys gwersi roi sylw i bryderon y gallai fod gan rieni ynghylch priodoldeb yr hyn a addysgir. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn ystod sgysiau gyda rhieni a gofalwyr mewn grwpiau ffocws. Lle'r oedd rhieni wedi mynegi pryderon, pan roddwyd eglurhad iddynt, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a allai gael ei addysgu, roedd eu gwrthwynebiad i'r cynigion yn tueddu i wanhau. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i bryderon ynghylch pa mor briodol yw'r ddarpariaeth i oedran y plant dan sylw, ac yn enwedig y farn y byddai ACRh yn cael ei gyflwyno mewn ffordd unffurf o'r adeg pan fyddai plant yn 3 oed neu'n hŷn. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu, lle y gwelir gwrthwynebiad i'r cynigion, nad yw'n wrthwynebiad cryf, y gallai hyn gael ei leihau trwy ddarparu gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffordd effeithiol. Awgrymodd rhai yn y gymuned addysgol y ceir enghreifftiau arfer presennol o weithgarwch ymgysylltu effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, y gallent amlygu'r ffordd y byddai modd cyflawni hyn mewn gwirionedd.

Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Pa oblygiadau fyddai i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion pe byddai gofyn i bob dysgwr gael gwersi AG a/neu ACRh yn y cwricwlwm newydd?

Cwestiwn 2 – Pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad y byddai ei angen pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu?

Cwestiwn 3 – Ein cynnig ni yw na ddylai fod modd i rieni/gofalwyr atal eu plentyn rhag cael gwersi AG neu ACRh. Cyflwynir hyn o fis Medi 2022 i'r holl ddysgwyr cynradd ac i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd (gan ychwanegu grwpiau blwyddyn ychwanegol bob blwyddyn).

A ddylid stopio gallu rhieni/gofalwyr i atal eu plentyn rhag cael gwersi AG ac ACRh dan yr hen gwricwlwm o fis Medi 2022 hefyd? (Dim ond ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 8-11 yn 2022, Blynnyddoedd 9-11 yn 2023, ac ati, y byddai hyn yn cael goblygiadau iddynt.)

Pam ydych chi'n credu hynny?

Cwestiwn 4 – Beth sy'n enw priodol ar gyfer 'addysg grefyddol', er mwyn adlewyrchu'r cwrpas ehangach a gynigir ar ei gyfer yn y cwricwlwm newydd?

Cwestiwn 5 – Hoffem glywed eich safbwyntiau am yr effeithiau y byddai peidio â chynnwys hawl i dynnu plant allan yn y cwricwlwm newydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac ar y canlynol yn benodol:

- i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii. trin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6 – A fydddech gystal ag esbonio hefyd sut y byddai modd llunio neu newid y cynllun arfaethedig hefyd er mwyn cael:

- i. effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg
- ii. dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, a fydddech gystal â defnyddio'r lle hwn er mwyn adrodd amdanynt.



©Hawlfraint y Goron 2020

WG39803

ISBN digidol 978 1 83933 801 4